

Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Mawrth 2015

Rhif 453

50c

Dydd Gŵyl Ddewi i'w Gofio



Roedd Mawrth y cyntaf yn ddiwrnod o ddathlu cymunedol yn Nyffryn Ogwen. Er y glaw, daeth criw ynghyd, yn hen ac ifanc, i orymdeithio ar hyd Lôn Las Ogwen. Roedd y daith o Ddôl Goch i'r Feddygfa yn lliwgar gyda phawb yn chwifio baneri Cymreig.

Yn eu mysg oedd yr Aelod Seneddol, Hywel Williams, a'i deulu a diolchwn iddo am gefnogi'r gweithgarwch. Wedi'r orymdaith, cynhaliwyd cyngerdd cymunedol yn Neuadd Ogwen yng nghwmni Hogia'r Bonc, Boncathod, Ysgol Llanllechid, Ysgol Dyffryn Ogwen, Ysgolion Sul Jerusalem a Shiloh Tregarth ac eraill. Trefnwyd yr Orymdaith gan Gyngor Cymuned Bethesda a Phartneriaeth Ogwen. Meddai Godfrey Northam, Cadeirydd y Cyngor Cymuned: "Roeddem yn falch iawn o allu rhoi cyfle i gymuned Dyffryn Ogwen ddod ynghyd i ddathlu dydd ein nawddsant. Roedd yn gyfle da i gymdeithasau lleol a chymunedau ar draws y Dyffryn ymfalchïo yn ein Cymreictod a hoffem ddiolch i bawb am eu cefnogaeth.



Yn ogystal â'r gorymdeithio a'r canu yn Neuadd Ogwen, roedd busnesau Dyffryn Ogwen hefyd wedi cyfrannu at y dathliadau trwy gymryd rhan yng nghystadleuaeth y Ffenestr Siop Dydd Gŵyl Ddewi Orau. Darparwyd y wobwr ar gyfer y gystadleuaeth gan gwmni diogelwch Corvus ar Stryd Fawr Bethesda a beirniadwyd y gystadleuaeth gan Gadeirydd y Cyngor Cymuned, Godfrey Northam. Bu cystadlu brwd gydag amrywiaeth eang o ffenestri - o'r dreigiau traddodiadol i ddarluniau cywain o stori Dewi Sant a thorchau cennin! Hoffem ddiolch i gwmni Corvus am y wobwr a hefyd i bawb a fu'n cystadlu. Yn fuddugol eleni oedd Siop Blodau Hyfryd a llongyfarchiadau mawr iddynt.

Golau Gwyrdd i Addysg Plant y Dyffryn

Mis diwethaf fe adroddwyd am lwyddiant Ysgol Dyffryn Ogwen. Braff yw cael nodi bod dwy ysgol arall yn y Dyffryn wedi eu gosod yn y categori gwyrdd.

Llongyfarchiadau i Ysgolion Abercaseg a Phenybryn sydd wedi cyrraedd y brig gyda chanmoliaeth uchel am berfformio'n rhagorol yn erbyn gofynion Llywodraeth Cymru. Eisoes adroddodd ESTYN am safon uchel yr elfennau rheolaethol yn ogystal ag ansawdd yr addysgu a phrofiadau dysgu'r plant.

Diolch i holl staff y ddwy ysgol am eu hymroddiad a pheidiwn ag anghofio ymdrech a gwaith caled y plant. Newyddion calonogol iawn i ddyfodol addysg y dyffryn.



Llais Ogwan

PANEL GOLYGYDDOL

Derfel Roberts

600965

hylaw@btinternet.com

Ieuan Wyn

600297

cylch@tiscali.co.uk

Lowri Roberts

600490

l.roberts11@btinternet.com

Dewi Llewelyn Siôn

07940 905181

dewision@hotmail.co.uk

Fiona Cadwaladr Owen

601592

Fiona@fowen.wanadoo.co.uk

Siân Esmor Rees

600427

sian_esmor@btinternet.com

Neville Hughes

600853

nev_hughes@btinternet.com

Dewi A Morgan

602440

dewimorgan@live.co.uk

Trystan Pritchard

07402 373444

trystanrp1@gmail.com

Walter W Williams

601167

waltermenai@yahoo.co.uk

SWYDDOGION

Cadeirydd:

Dewi A Morgan, Park Villa, Lôn Newydd Coetmor, Bethesda, Gwynedd LL57 3DT

602440

dewimorgan@live.co.uk

Trefnydd Hysbysebion:

Neville Hughes, 14 Pant, Bethesda LL57 3PA

600853

nev_hughes@btinternet.com

Ysgrifennydd:

Gareth Llwyd, Talgarnedd, 3 Sgwâr Buddug, Bethesda LL57 3AH

601415

garethllwyd197@btinternet.com

Trysorydd:

Godfrey Northam, 4 Llwyn Bedw, Rachub, Llanllechid LL57 3EZ

600872

godfreynortham@hotmail.co.uk

Y Llais Drwy'r Post:

Owen G Jones, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN

600184

post@llaisogwan.com

Golygydd y Mis

Golygwyd y mis hwn gan Trystan Pritchard.

Golygydd mis Ebrill fydd Dewi A. Morgan, Park Villa, Lôn Newydd Coetmor, Bethesda, LL57 3DT. 01248 602440. Ebost: dewimorgan@live.co.uk

Pob deunydd i law erbyn dydd Mercher, 1 Ebrill, os gwelwch yn dda. Plygu nos lau, 16 Ebrill, yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45.

DYDDIADUR Y DYFFRYN

Mawrth

21 Marchnad Pesda. Neuadd Ogwen. 9.30 – 1.30

21 Bore Coffi Eisteddfod D. Ogwen. Neuadd Ogwen. 10.00 – 12.00.

21 Cyngerdd Elusennol at “M. S.” yn Neuadd Ogwen am 7.00.

22 Cyfarfod Sefydlu'r Parchg John Pritchard. Capel Carmel Llanllechid am 5.00

24 Cangen Dyffryn Ogwen Plaid Cymru. Cefnfaes am 7.00.

26 Merched y Wawr Bethesda. Ynys Llanddwyn gan Graham Williams. Cefnfaes am 7.00.

28 Bore Coffi Plaid Lafur. Cefnfaes. 10.00 – 12.00.

28 Bore Coffi Cyfeillion Ysbyty Gwynedd. Caffi Coed y Brenin. 10.00 – 12.00

31 Theatr Bara Caws. Pum Cynnig i Gymro. Neuadd Ogwen am 7.30

Ebrill

02 Sefydliad y Merched Carneddi. Sgwrs gan Alwen Nicholson. Cefnfaes am 7.00

04 Rygbi. Bethesda v. Llandudno. Dôl Ddafydd am 2.30

09 Cymdeithas Jerusalem. Sgwrs am Mizoram. Ffestri Jerusalem am 7.00

11 Marchnad Ogwen yn Neuadd Ogwen. 9.30 – 1.30

11 Rygbi. Bethesda v. Nant Conwy. Dôl Ddafydd am 2.30

16 Plygu Llais Ogwan. Cefnfaes am 6.45

18 Marchnad Pesda. Neuadd Ogwen. 9.30 – 1.30

18 Bore Coffi Cymdeithas Jerusalem. Cefnfaes. 10.00 – 12.00

Mai

07 Etholiad Gyffredinol.

Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

Gwobrau Mawrth

£30.00 (18) Jennie Jones, Bryn Caseg, Bethesda.

£20.00 (33) Eileen Evans, Llwyn Meurig, Rhos y Nant, Bethesda.

£10.00 (110) Dafydd Owen, Lôn Groes, Rachub.

£5.00 (149) Minnie Lewis, Porthaethwy.

Nid yw pwyllgor Llais Ogwan na'r panel golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno â phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr.

Rhoddion i'r Llais

£10.00 Dienw, Bethesda.

£20.00 Er cof annwyl am Tom Morgan, Glan Ogwen, oddi wrth Vera a'r teulu.

Diolch yn Fawr

Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â Bryn yn swyddfa'r deillion, Bangor

01248 353604

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:

Gareth Llwyd

601415

Neville Hughes

600853

Archebu Llais Ogwan drwy'r Post

Gwledydd Prydain - £20
Ewrop - £30
Gweddill y Byd - £40

Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com

01248 600184

Cyhoeddir gan Bwyllgor Llais Ogwan @Llais_Ogwan

Cysodwyd gan Tasg, 50 Stryd Fawr Bethesda, LL57 3AN

07902 362 213

post@tasg.co.uk

Argraffwyd gan Wasg Ffrancon, Dôl Ddafydd, Bethesda LL57 3LY

01248 601669

Hysbysebu yn y Llais

I hysbysebu yn Llais Ogwan ac i drafod telerau a'ch holl anghenion cysylltwch â:

Neville Hughes, 14 Pant, Bethesda LL57 3PA

600853

nev_hughes@btinternet.com

Cofiwch hefyd roi gwybod am unrhyw weithgareddau y gallwn eu cynnwys yn Nyddiadur y Dyffryn ac ar dudalen Beth sy'n Digwydd yn y Dyffryn.

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Annwyl Olygydd

Annwyl Olygydd,

A oes gan eich darllenwyr ddiddordeb mewn hanes teulu? Buaswn yn ddiolchgar os gallwch rannu'r wybodaeth yma:

Er mwyn codi ymwybyddiaeth am Hanes Teuluol mae Cymdeithas Hanes Teuluol Gwynedd yn cynnal diwrnod agored yn Ardal Dyffryn Conwy ar 18 Ebrill 2015. Cynhelir y gweithgaredd yn Ystafell Carneddau, Canolfan Glasdir, Llanrwst, rhwng 10.00 y bore a 4.00 y prynhawn.

Bydd yno stondinau gan amryw o gymdeithasau eraill a chlybiau a.y.b. sydd yn ymwneud â hanes teulu / hanes lleol.

Mae mynediad yn rhad ac am ddim, a bydd lluniaeth ar gael yn y ganolfan am bris rhesymol.

Croeso cynnes i bawb.

Os am fwy o wybodaeth cysylltwch â John Bryan Jones, ar 01492 515558, neu e-bost - bryan.jones8@btinternet.com

Yn Gywir,

Dafydd W. Roberts,
Ysgrifennydd Cyffredinol,
Cymdeithas Hanes Teuluoedd Gwynedd.
www.gwyneddfhs.org
Rhif elusen 512854

Annwyl Olygydd,

Bydd y sawl sydd wedi bod i Neuadd Ogwen yn ystod yr wythnos neu ddwy ddiwethaf wedi sylwi ein bod wedi ailwampio rhyw ychydig ar y tu mewn, a bod swyddfa docynnau a bar newydd bellach wedi cael eu hadeiladu. Carwn ddiolch o galon i Glyn Jones, y saer, am ei waith rhagorol sydd wedi gwella edrychiad y lle yn aruthrol. Carwn ddiolch hefyd i Welsh Slate, CL Jones a Bradite Paint a fu'n hael iawn gyda rhodd o ddeunyddiau ar gyfer y gwaith.

Dyfrig Jones
Cadeirydd Bwrdd Neuadd Ogwen

Gorymdaith ym Methesda



Pa bryd? Dechrau'r 1940s efallai?
Beth oedd yr achlysur?
Ydych chi'n nabod rhywun yn y llun?

(diolch i John ac Irene Williams. Meifod, Ffordd Bangor am gael benthg y llun).

Diolch

Dymuna Eleanor, ac Aelodau o Bwyllgor Apêl Eleanor Jones ddiolch i bawb a gasglodd Wish Tokens y Daily Post i'r Apêl. Diolch hefyd i'r rhai hynny a dreuliodd oriau yn gludo'r tocynnau yn y llyfrau. Casglwyd dros gant o lyfrau at yr achos teilwng hwn, ac mae'r Apêl wedi elwa o £730.81 trwy gasglu'r tocynnau. Diolch yn fawr iawn i chi i gyd.

Diolch

Dymuna Pwyllgor Apêl Eleanor Jones ddiolch o galon i Eileen Evans, Dafydd Meurig, Morfudd, a holl deulu'r diweddar Emllyn Evans, Rhos y Nant, am eu rhodd hael o £1000 i Gronfa Apêl Eleanor, er cof am Mr Evans. Diolch, hefyd, i Eilir Williams, Hogs Môn, am y rhodd o £1,100 wedi iddo ddathlu pen-blwydd arbennig. Diolch o galon i chi i gyd.

Hywel Williams AS

Llais cryf a lleol dros Arfon



Bydd Plaid Cymru yn cefnogi mwy na 80,000 o fusnesau bach a chanolig trwy dorri trethi busnes yng Nghymru a chael gwared ar drethi busnes yn gyfan gwbl i 70,000 o gwmnïau gan roi hwb i'r stryd fawr - Hywel Williams AS

ETHOLIAD CYFFREDINOL SAN STEFFAN
DYDD IAU | 07 MAI | 2015

Hynwyddwyd gan Llŷr ab Alwyn | 3 Bythynnod Dinas | Dinas | Caernarfon | LL54 5UA ar ran Hywel Williams AS Plaid Cymru | 8 Stryd y Castell | Caernarfon | LL55 1SE



Nant Ffrancon

Cydymdeimlo

Anfonwn ein cydymdeimlad at Mr Gwyn Thomas a’r teulu, Blaen Nant, yn eu profedigaeth o golli ei frawd-yng-nghyfraith.

Marwolaeth

Bu farw Mrs. Gwyneth Mary Hughes, Gwynfryn, Llundain Fach, Talsarn, Ceredigion, yn Ysbyty Glangwili, Caerfyrddin, yn 93 mlwydd oed. Un o Tan y Celyn, Tŷ’n y Maes oedd hi, ond wedi symud yn ifanc i ddilyn ei gyrfa fel athrawes yn y Gogledd a’r De. Mewn teyrnged iddi dywedwyd bod cadernid bro’r chwareli, cylch Bethesda, wedi ymdreiddio i’w phersonoliaeth. Roedd yn annibynnol ei hagwedd ac yn mynegi ei barn yn bendant. Fel mam, a nain a hen nain rhoes arweiniad cadarn i’w theulu. Cynhaliwyd ei hangladd ar 8 Ionawr yn ei chartref a Mynwent Capel Abermeurig, gyda’r Parchedig Stephen Morgan yn gwasanaethu. Cydymdeimlwn â’i merch, Gwenda, â’i mab, Dai Prys, a’r teulu oll yn eu profedigaeth.

Capel Nant y Benglog

Croeso i bawb am 2.00 o’r gloch

22 Mawrth Y Parch.Harri Parri
29 Mawrth Haf a Sheila i drefnu
12 Ebrill Teulu Maes Caradog i drefnu
19 Ebrill Mr Tudur Hughes
26 Ebrill Y Parchedig John Pritchard am 3.00 o’r gloch.

Croeso cynnes i bawb

Bethesda

Fiona Cadwaladr Owen,
Bryn Meurig Bach,
Coed y Parc, Bethesda,
LL57 4YW ☎ **601592**

Joe Hughes,
Awel y Nant,
Ffordd Ffrydlas, Bethesda
☎ **601902**

Dyweddïad

Llongyfarchiadau i Donna, merch hynaf Mr. a Mrs. Raymond Jones, Glanogwen, ar ei dyweddïad â Geraint, mab Mr. a Mrs. Meurig Roberts, Ffordd Llanllechid, Rachub. Llongyfarchiadau oddi wrth y ddau deulu!

Diolch

Dymuna Billy ac Olive ddiolch i’r teulu, ffrindiau a phawb arall am yr holl gardiau, anrhegion a galwadau ffôn a gawsant ar eu dathliad Priodas Aur. Diolch

arbennig i’r plant, wyrion ac wyresau. Diolch o galon.

Ysbyty

Cofion at bawb a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar: Mrs Bet Owen, Glanffrydlas; Mrs Marie Williams, Plas Ogwen; Mrs Muriel Williams, Garneddwen; Mr Hugh Jones, Maes Coetmor.

Cydymdeimlo

Anfonwn ein cydymdeimlad at sawl teulu a fu mewn profedigaeth yn ddiweddar, gan gynnwys: Mr a Mrs David Bullock, Siôn, Aron a Mari, Ystad Coetmor. Colli tad a thaid annwyl yn Llanberis ar 30 Ionawr, sef y diweddar Mr Dennis Evans.

Mr a Mrs Malcolm Williams a’r teulu, Glanffrydlas. Collodd Eifiona ei nith ym Mhenmaenmawr ar 22 Chwefror, sef Cheryl Ann Jones, yn 40 oed. Mrs Val Amos a’r teulu, Glanogwen wedi colli ei chwaer annwyl yn Rhydychen.

Marwolaeth

Ar 7 Chwefror, yn ei gartref yn 29 Pen-y-bryn, bu farw Mr Brian Ernest Neal yn 77 oed. Priod annwyl Mrs Nesta Neal a thad a thad-yng-nghyfraith Christopher a Gill, Vanessa ac Ian. Taid caredig Cara, Hollie a Ryan. Brawd Joan, Reggie a Jackie a brawd-yng-nghyfraith ac ewythr. Cynhaliwyd ei angladd ddydd Mercher, 18 Chwefror, gyda gwasanaeth yn Amlosgfa Bangor. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch fel teulu.

Deunaw oed

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da iti, Sioned Cross, ar yr achlysur hapus o ddathlu dy ben-blwydd yn ddeunaw oed ar 3 Mawrth.

Thomas Hywel Morgan

Dymuna Vera, Gwyn, Dylan, Nerys a’r teulu ddiolch o galon i’r teulu a chyfeillion am bob arwydd o gydymdeimlad a gawsant yn eu profedigaeth o golli gŵr, tad a thaid annwyl. Diolch am y rhoddion hael o £1,900.00 tuag at Ward Glyder a Ward Gofal Arbennig y Galon yn Ysbyty Gwynedd.

Diolch yn arbennig i’r Parchedig Ddr. Huw John Hughes am ei wasanaeth yn yr Amlosgfa, ac i’r organydd, Mr Wyn Williams. Diolch i holl aelodau Côr y Penrhyn am ganu hoff gân Tom, sef “Bendigedig”, yn y gwasanaeth. Diolch hefyd i staff Caffi Coed y Brenin am baratoi’r lluniaeth.

Mae ein diolch yn fawr i Mr. Gareth Williams, yr ymgymmerwr, am ei wasanaeth parchus.

Diolch yn fawr i bawb.

Gorffwysfan

Cynhaliwyd cyfarfod o bwyllgor y clwb uchod fore Llun, 2 Mawrth 2015 am 11.00 o’r gloch gyda Mr Elfed Bullock yn y gadair. Yn bresennol roedd Dennis Dart, Joe Evans, Dafydd Pritchard, O. J. Evans, Gilbert Bowen, Dilwyn Owen, Edric Jones, Joe Hughes a’r Cadeirydd (9 aelod) Cafwyd ymddiheuriadau gan ddau, sef Vernon Owen a Rhiannon Efans.

Cafwyd gair o groeso i’r cyfarfod gan ein cadeirydd.

Anfonwyd cofion a dymuniadau am wellhad buan at sawl un o’r clwb, sef:- Mr Jim Amos, Mrs Alice Jones, Mrs Christine Jones, Mrs Joan Griffiths, Mrs Nancy Williams, a hefyd at ddau gyn-aelod, sef Mr a Mrs Len Williams.

Darllenwyd cofnodion pwyllgor bore Llun, 1 Medi 2014.

Materion i’w trafod

Gwibdeithiau 2015

Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd ar ddyddiadau a chyrchfannau pedair gwibdaith, bob un ar ddydd Mercher.

6 Mai – Caer

8 Gorffennaf – Bodnant (coffi), y Bala (cinio) Canolfan Mary Jones, Trên bach Llyn Tegid

9 Medi – Castell Powys. Coffi yn Nolgellau

4 Tachwedd – Y Wyddgrug a Phrestatyn

16 Rhagfyr – Dathlu’r Nadolig.

Bydd yr Ysgrifennydd yn cysylltu â Chwmni Clynnog a Threfor am brisiau’r bws.

Bore Coffi Blynnyddol

Penderfynwyd cynnal Bore Coffi yng Nghanolfan Cefnfaes; Denis a’r ysgrifennydd i drefnu dyddiad.

Pêl Bonws

I’w drafod eto gan fod un neu ddau o’r aelodau ddim yn talu yn rheolaidd, felly gofynnir i’r aelodau dalu bob mis os gwelwch yn dda. Fel arall byddwch yn colli eich rhif. Diolch i’r rhai sy’n talu’n rheolaidd ac ymlaen llaw.

Adroddiad y Trysorydd

Cafwyd adroddiad boddhaol gan Mr Joe Hughes. Diolchwyd iddo gan y cadeirydd am wneud y gwaith dros dro.

Ethol Swyddogion.

Cadeirydd – Mr Elfed Bullock; Trysorydd – Mr O. J. Evans; Is-drysorydd – Mr Vernon Owen; Ysgrifennydd – Mr Joe Hughes.

Diolchodd y cadeirydd i bawb am eu gwaith.

Sefydliad y Merched, Carneddi

Ar Fawrth 5ed cawsom ein cyfarfod Gŵyl Ddewi a rhoddodd ein llywydd, Margaret Williams, groeso cynnes i bawb, ond yr oedd ychydig ymddiheuriadau oherwydd anhwylder rhai o’r aelodau .

Mae ein cofion yn mynd at Beti Williams, sydd yn anffodus yn ôl yn yr ysbyty, ond yn cael dod adref cyn bo hir . Dymunwyd gwellhad buan i Violet Williams hefyd gan obeithio y bydd hi gyda ni mis nesaf.

Aeth rhai o’r aelodau i’r cyfarfod blynnyddol yn Ysgol Brynrefail yn ddiweddar, ac roedd pawb, bron, wedi eu gwisgo mewn dillad oedd yn cynrychioli gwahanol gyfnodau yn ystod 100 mlynedd Sefydliad y Merched. Cafwyd diwrnod da iawn gydag Annette Bryn Parri yno i’n diddori. Fe gafwyd te prynhawn yn ogystal â thamaid o gacen dathlu’r 100 mlwyddiant.

Darllenwyd y cofnodion gan Gwyneth ac aeth Margaret ymlaen i ddarllen y llythyr misol oedd yn llawn o weithgareddau a fydd yn digwydd yn ystod y flwyddyn i ddathlu'r 100 mlwyddiant,

Ein gŵr gwadd oedd y canwr Elfed Morgan Morris o Ddeiniolen. Mae ei fam yn eneth o Fethesda, sef Myra Sherlock, a briododd â bachgen o Ddeiniolen. Mae Elfed yn ddirprwy brifathro yn Ysgol Llandygái ac mae wedi ysgrifennu llawer o ganeuon serch a charolau.

Er clod mawr iddo, enillodd gystadleuaeth “Cân i Gymru” gyda chân a ysgrifennodd gyda Lowri Roberts, hefyd o Fethesda . Fe gawsom noson fendigedig yn ei gwmni wrth wrando ar ganeuon yr oedd ef wedi eu cyfansoddi, a rhai o sioeau cerdd yn ogystal ag emynau .

Diolchodd Glenys Wyn Jones i Elfed am y noson, ac i’r pwyllgor am baratoi danteithion Gŵyl Ddewi i’r aelodau. Myfanwy Jones roddodd y wobr lwcus a Rita Bullock oedd yr enillydd.

Yr Eglwys Unedig

Dechreuwyd y mis gyda Rhiannon yn cymryd y gwasanaeth fore Sul, y 1af. Mae Rhiannon yn bwriadu dilyn cwrs hyfforddiant penodol i flaenoriaid ac yn y cyfamser yn meithrin profiad drwy gynnal gwasanaethau. Rydym fel eglwys yn edmygu Rhiannon yn arw am ei hyder a'i dewrder am ymgymryd â'r gwaith a dymunwn bob llwyddiant iddi.

Cofiwn am bawb sy'n wael ymhlith yr aelodau a'n cyfeillion. Mae rhai mewn ysbyty neu gartref preswyl, mewn profedigaeth, yn llesg ac unig. Meddyliwn yn arbennig am Elizabeth Owen, Marie Williams a René Ellis Jones a boed bendith arnynt.

Ar y 12fed cynhaliwyd y Gymdeithas dan lywyddiaeth Minnie. Y gŵr gwadd oedd Dafydd Jones Morris. Soniodd am ei brofiadau erchyll ynghyd â phrofiadau melys a boddhaol wrth weithio fel gyrrwr Ambiwlans am ddeugain mlynedd. Rhoddwyd y diolchiadau gan Rhiannon am noson hynod ddiddorol a fu'n agoriad llygad i lawer ohonom.

Oedfaon i ddod

Mawrth 22 Parch. Cledwyn Williams

Mawrth 29 Oedfa Sul y Blodau dan ofal Ceri (10.00)

Mawrth 29 Parch. Ddr H. John Hughes (5.00)

Ebrill 5 Parch. R.O. Jones

Ebrill 12 Parch. Trefor Jones

Ebrill 19 Bnr Dafydd Iwan.

Eglwys Crist, Glanogwen

Cynhelir Gwasanaethau fel a ganlyn:

Sul Cyntaf pob mis: Cymun Bendigaidd 8.00, Boreol Weddi 11.00

Ail a thrydydd Sul pob mis: Cymun Bendigaidd Cymraeg – 11.00am

Pedwerydd Sul pob mis: Cymun Bendigaidd dwyieithog – 11.00am

Pumed Sul: Gwasanaeth ar y cyd gyda Mynydd Llandygái a Phentir (Lleoliad i'w gyhoeddi)

Pob bore Mercher am 10.30am - Cymun Bendigaidd

Croesawyd swyddogion Eglwysi Bro Ogwen i Ficerdy Pentir yn ystod mis Chwefror. Yno cafwyd lluniaeth ysgafn ac adloniant. Yn ystod y noson manteisiodd y Parch John Matthews ar y cyfle i ddiolch i holl swyddogion y chwe Eglwys am y modd y maent wedi gweithio'n galed i gynnal yr adeiladau a'r gwasanaethau mewn cyfnod anodd ond arloesol wrth sefydlu'r Fro Weinidogaethol newydd.

Cynhaliwyd Gwasanaeth Cymun Dydd Gŵyl Dewi yn yr Eglwys fore Sul Mawrth 1af o dan ofal y Parch John Matthews. Daeth nifer dda i'r gwasanaeth er gwaethaf y tywydd oer.

Cynhelir Cyfarfod Festri Pasg Glanogwen, Nos Lun, Mawrth 30 am 7.00pm yn yr Eglwys. Croeso cynnes i'r holl aelodau.

Mae nifer o aelodau yn cwyno oherwydd amrywiol anhwylder. Dymunwn adferiad llwyr a buan i chwi gan fawr obeithio y byddwch cyn hir yn medru mynychu rhai o'r gwasanaethau.

Merched y Wawr, Bethesda

Bu'r gangen yn dathlu Gŵyl Ddewi yng nghaffi Coed y Brenin, nos lau, y 26ain o Chwefror.

Derbyniwyd ymddiheuriad gan Eleanor Holland oedd yn anhwylys ei hiechyd a hefyd gan Eirlys Cefni gan nad yw ei brawd yn dda. I'r gwrthwyneb, llawenydd oedd gallu cyhoeddi fod Jean, Jennie, Eleanor Morris, Jean Northam a Megan yn gwella a hefyd fod Glenys wedi setlo yn eitha yng nghartref Bryn Llifon.

Estynnwyd llongyfarchion i Doris Shaw ar ddathlu pen-blwydd arbennig er mor anodd yw coelio hynny!!

Rhoddwyd croeso cynnes iawn gan y llywydd i Bedwarawd y Fenai a fu'n ein diddori. Pedwarawd hynod addas ar gyfer y dathliad, yn enwedig wrth gofio her ein nawddsant i gadw'r iaith. Rydym wedi cael colledion fel cenedl yn ddiweddar o golli rhai fel Merêd ac felly mae'n ofynnol i ninnau wynebu'r her gyda brwdfrydedd. Cawsom bleser yn gwrando ar ganeuon fel Unwaith eto Gymru Annwyl, Robin Ddiog, Deio i Dywyn ac Englynion Coffa Hedd Wyn, ag enwi dim ond ychydig.

Rhoddwyd diolchiadau haeddiannol iddynt gan y llywydd, Elena, am noson hynod addysgiadol a diddorol a hefyd i weinyddesau Coed y Brenin am y lluniaeth blasus. Derbyniwyd gwobrau raffl gan Jennie a Margaret a'r enillwyr oedd Eurwen, Gwenno a Doris.

Gohebiaeth

Bydd y Pwyllgor Anabl yn cynnal distawrwydd nodeddig i godi arian at blant rhannol ddall – achos da iawn.

Newyddion Rhanbarthol a Chenedlaethol

Cyfle i'r aelodau leisio barn ynglŷn â newidiadau ar gyfer rhaglen y flwyddyn i ddod.

Y Gerlan

Ann a Dafydd Fôn Williams,
14/4 Stryd y Ffynnon, Gerlan
☎ **601583**

Cofion

Rydym yn gyrru ein cofion at Griff Williams, Gwernydd, sydd wedi treulio ychydig ddyddiau yn Ysbyty Glan Clwyd. Yn awr mae ar fin cychwyn ar gyfnod o driniaeth. Rydym yn dymuno'r gorau am wellhad llwyr a buan ichi, Griff.

Pen-blwydd arbennig

Yn ddiweddar dathlodd Iwan Charles, Stryd Hir, ei ben-blwydd yn 40 oed. Rydym oll yn gyrru ein llongyfarchiadau mawr iti, Iwan, ac yn gobeithio y cefaist ddiwrnod i'w gofio.

Cydymdeimlo

Rydym yn estyn ein cydymdeimlad dwysaf i Alun Thomas, Ffordd Gerlan, a'r teulu, yn eu profedigaeth ddiweddar o golli brawd-yng-nghyfraith Alun, y diweddar Brian Neal, Allt Pen y Bryn.

Cyfarchion pen-blwydd

Dathlodd yr efeilliaid Brian a Craig Costello, Stryd y Ffynnon, eu pen-blwydd yn 18 oed ddechrau Mawrth. Llongyfarchiadau mawr i'r ddau ohonoch. Gobeithio eich bod wedi mwynhau'r dathlu.

Profedigaeth

Estynnwn ein cydymdeimlad i Siôn Meurig, Kirsty, ac Isabel, Tan Treflys, yn eu profedigaeth o golli nain Siôn, y diweddar Mrs Mary Dickson, a fu farw yng Nghartref Nyrsio Penisarwaen.

Pen-blwydd

Llongyfarchiadau mawr i Osian Owen, Ciltwllan, ar ddathlu ei ben-blwydd yn 18 oed yn ddiweddar. Llongyfarchiadau mawr iti, Osian, a phob hwyl i'r dyfodol.

Cofion

Rydym yn gyrru ein cofion at Dafydd Morris, Garnedd Uchaf, sydd heb fod yn dda yn ddiweddar ac sydd ar fin mynd i dderbyn triniaeth yn yr ysbyty. Derbyn ein dymuniadau gorau, Dafydd.

Pen-blwydd Hapus

Dymunwn ben-blwydd hapus iawn yn 80 oed i Hywel Williams (How Post) o'r Gerlan gynt ond o Lanfairpwll erbyn hyn. Mae How wedi cadw cysylltiad agos â'r hen fro dros y blynyddoedd ac wrth gwrs mae ei frawd, Len a'i chwaer yng nghyfraith, Megan yn dal i fyw yma. Pob dymuniad da i How a gobeithio y cawn ei weld hyd Gerlan a Bethesda eto cyn bo hir.

Capel Bethania

Gwasanaethau

05 Ebrill – Cau

19 Ebrill – Parchg Gwynfor Williams

03 Mai – Parchg Dafydd Coetmor Williams.

Oedfaon am 5.30 o'r gloch
Croeso cynnes i bawb

Rachub a Llanllechid

Dilwyn Pritchard,
Llais Afon, 2 Bron Arfon, Rachub
LL57 3LW
☎ 601880

Diolch
Dymuna Rhiannon, Rhys a Lisa, teulu'r diweddar Elwyn Parry, yr Wyddgrug, ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli priod, tad a thaid caredig. Diolch am y rhoddion hael a dderbyniwyd tuag at Uned Canser Seren Wib, Ysbyty Maelor ac Uned Gofal Arbennig Ysbyty Alder Hey. Gwerthfawrogyd y cyfan yn fawr iawn.

Clwb Hanes Rachub a Llanllechid

Nos Fercher, 25 Mawrth
am 7.00 o'r gloch
yn Festri Capel Carmel.
Bydd y Dr John Elwyn Hughes yn trafod
Dyffryn Ogwen a'r Rhyfel Mawr
(gan ganolbwyntio ar gyfraniad trigolion Rachub)

CROESO CYNNES!

Clwb Hanes Rachub, Caellwyngrydd a Llanllechid.

Croesawyd bron i ugain o ffyddloniaid i'r cyfarfod diweddaraf o Glwb Hanes Rachub, lle cafwyd sgysiau difyr am y defnydd amrywiol a wneir o lechi yn yr ardal.

Trafodwyd yr enghreifftiau cywrair sy'n bodoli o lechi cerfiedig - rhai sy'n cynnwys lluniau a phatrymau o bob math - o ganeuon a hen nodiant i batrymau geometrig a lluniau o sêr a phlanedau!

Rhaid cofio mai crefftwyr o chwarelwyr lleol oedd yn creu'r campweithiau yma! Gwelwyd enghraifft o 'lechen cownt' yn ogystal â cherflun arbennig o un o deulu'r Penrhyn a ddarganfuwyd yn yr ardal! Roedd Elin Pritchard wedi tynnu cyfres o luniau diddorol o bileri llechi 'Bronnydd', sy'n dangos llythrennau cyntaf enwau nifer o drigolion yr ardal wedi eu cerfio arnynt, - ac mae llawer o'r rhain yn cynnwys dyddiadau mor bell yn ôl ag 1883!

Diolch i bawb am eu cyfraniadau difyr. Bydd y cyfarfod nesaf (25 Mawrth) yng nghwmni'r Dr J. Elwyn Hughes a fydd yn rhoi sgwrs ar y testun 'Dyffryn Ogwen a'r Rhyfel Mawr', gan ganolbwyntio'n arbennig ar gyfraniad trigolion Rachub.

Cylch Ti a Fi
Erbyn i'r rhifyn hwn o'r Llais ymddangos gobeithiwn y bydd Cylch Ti a Fi wedi setlo yn eu cartref newydd yn y Clwb Criced. Mae'r Pwyllgor yn diolch yn fawr am bob help a dderbyniwyd gan swyddogion Capel Carmel yn ystod y cyfnod y bu'r Cylch yn cyfarfod yn y Festri. Bydd yr amserau cyfarfod yr un fath, sef bob bore Gwener rhwng 10.00 a 12.00. Mae croeso i aelodau newydd ymuno â'r Cylch. Cewch fwy o wybodaeth ar Weplyfr y Cylch - Clwb Ti a Fi Rachub a Llanllechid, neu drwy ffonio Keilly ar 07887 534 376.

Clwb Llanllechid
Estynnwyd y croeso arferol i aelodau'r Clwb a gyfarfu yn Festri Capel Carmel ar 11 Chwefror 2015 a chroesawyd aelodau a fu'n absennol o'r cyfarfodydd diwethaf oherwydd amgylchiadau arbennig. Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oherwydd anhwylder.

Cydyndeimlwyd â Mrs Betty Williams, Bryn Owen, wedi ei phrofedigaeth o golli ei brawd yng nghyfraith, Griff Williams yn Rachub.

Mae'r Clwb yn ddiolchgar i Len Jones a Dennis Vaughan am eu rhoddion ariannol hael tuag at goffrau'r Clwb.

Adroddodd Margaret ar y sefyllfa ddiweddaraf ynglŷn â'r Ganolfan. Roedd pawb yn gobeithio y gwelir y ffordd ymlaen i achub yr adeilad at fudd y gymdeithas yn Rachub.

Rhoddwyd y wobr Iwcus gan Glenys a'r enillydd oedd Vera. Mwynhawyd panad o de a baratowyd gan Rita a Medi.

Estynnwyd croeso i'r siaradwr gwadd, Dafydd Gwilym Jones a chafwyd sgwrs ddifyr a thrafodaeth frwd am hanes gwaelod y Stryd Fawr ym Methesda yn ystod y pumdegau a chwedegau'r ganrif ddiwethaf. Atgoffwyd llawer am y cymeriadau a'r siopau a oedd yn agored yn ystod y cyfnod yma. Diolch yn fawr i Dafydd am brynhawn difyr iawn.

Mae gwahoddiad agored i bawb ohonoch ymuno â ni yn y Clwb. Byddai'n bleser cael eich cwmni.

Dyweddïad
Llongyfarchiadau i Geraint, mab Mr. a Mrs. Meurig Roberts, Ffordd Llanllechid, ar ei ddyweddïad â Donna, merch Mr. a Mrs. Raymond Jones, Glanogwen, Bethesda. Llongyfarchiadau oddi wrth y ddau deulu.

Ysbyty
Da cael adrodd fod Casi Tugwell-Williams, Lôn Groes adref wedi cyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar. Mae Casi yn ddiolchgar i bawb am

Capel Carmel

Gwasanaeth Gŵyl Ddewi
Cawsom wasanaeth hyfryd yng nghwmni'r plant a phobl ifanc ar Fore Sul, Mawrth 1af. Canodd y plant yn ardderchog a chymerodd aelodau Clwb Dwylo Pysur eu rhan yn raenus hefyd. Diolch i bawb am eu gwaith, i Elin Mir Jones am lywyddu a Rhian Roberts am gyfeilio. Cafwyd paned a chacen yn y Festri ar ôl y gwasanaeth. Diolch i bawb a gyfrannodd at y bwyd ac a fu'n brysur wrth y byrddau.



Rhai o'r plant a gymerodd ran



Y bobl ifanc a gymerodd ran

y cardiau a'r rhoddion a dderbyniodd.

Mae Vernon Davies, Stad yr Ynys hefyd wedi dod allan o'r ysbyty wedi treulio bron i chwe wythnos yn Ysbyty Gwynedd. Daliwch i wella.

Mae'n cofion hefyd yn mynd at Seren, Ffordd Llanllechid, Sioned Williams, Maes Bleddyn a'r Cynghorydd Pearl Evans Stryd Britannia.

Cydymdeimlo
Ar 16 Chwefror bu farw Mrs Gwyneth Jones, 4, Stryd Fawr, yn Ysbyty Gwynedd a hithau'n 81 mlwydd oed. Dioddefodd waeledd cas yn ddewr iawn ers peth amser. Roedd yn gymeriad tawel, bonheddig bob amser, yn fam, nain a hen nain gyda gofal y teulu i gyd yn agos at ei chalon. Symudodd i'r ardal o Lanrwst pan briododd y diweddar Robert Jones (Bob Chips). Anfonwn ein cydymdeimlad at Peter, Janice, Yvonne a Gwyn, Steven, Rhian, Andrew, Iwan a Siân, Macsen, Freddie, Morgan a Rhodri. Cynhaliwyd yr angladd dan ofal y Parch Dafydd Coetmor Williams yng Nghapel Carmel ar 23 Chwefror. Cydymdeimlwn â'r teulu oll yn eu colled.

Y Ganolfan
Mae hanes y Ganolfan yn dal i ddatblygu a gobeithio y cawn ei gweld yn cael ei harbed yn ystod y misoedd nesaf.

Dywedodd y Cyng Godfrey Northam, un sydd wedi brwydro'n galed i gadw'r adeilad yn agored, fod Cyngor Cymuned Bethesda yn barod i dderbyn perchnogaeth yr adeilad.

Maent hefyd yn bwriadu gwneud cais am grant o Gronfa'r Loteri i gael arian i wneud y gwaith trwsio angenrheidiol. Ond yn ôl y Cyng Northam fe all gymryd rhai misoedd cyn y cawn weld ffrwyth eu llafur.

Carmel, Llanllechid

Te Bach

PNAWN LLUN, 13 EBRILL
2.30 - 4.00

Croeso cynnes

Carmel, Llanllechid Trefn Gwasanaethau

Mawrth

22 (5.00pm) Gwasanaeth sefydlu’r
Parchedig D. John Pritchard yn weinidog
ar Eglwysi Bethlehem a Charmel
29 (2.00) Y Parchedig Tecwyn Roberts

Ebrill

05 (5.00 pm) Ein Gweinidog
12 (5.00 pm) Miss Nerys Jackson
29 (5.00 pm) Y Parchedig Geraint Hughes.

Ysgol Sul 10.30

Dwylo Prysur, Nos Wener 6.30.

Croeso cynnes i bawb

Capel Bethel Gwasanaethau

Mawrth

22 Parchg W. R. Williams
29 Parchg Huw Pritchard

Ebrill

05 Cau
12 Gweinidog
19 Parchg Chrisopher Prew
26 Parchg Harri Parri

Oedfaon am 2.00 o’r gloch
Croeso cynnes i bawb

Llandygái

Ethel Davies, Pennard, Llandygái

☎353886

Marwolaeth

Trist oedd clywed y newydd am farwolaeth Mr John David Jones, Trefelin, Llandygái yn Ysbyty Gwynedd, dydd Sadwrn, 14 Chwefror yn 71 mlwydd oed. Gŵr annwyl Eunice a thad David, Kevin a Beverley a thaid hoffus ei ŵyr a’i wyresau. Cynhaliwyd ei angladd yn Amlosgfa Bangor fore Sadwrn, 21 Chwefror. Cydymdeimlwn yn ddwys â’r teulu yn eu colled.

Gwaeledd

Anfonwn ein cofion at y cleifion sydd yn wael: Ernie a Nerys Coleman, Beryl a Jim Hughes, Dian Hughes, Dr Pam Jones, Moyra Muir, Olwen Latham, Cassie Tindell, Betty Williams a Dorothy Proudley-Williams – Brysiwch wella!

Diolch

Diolch o galon i bawb a fu’n casglu tocynnau “Make a Wish” y Daily Post tuag at Eglwys Sant Tegai. Cawsom y newydd da ein bod wedi cael £108.53 a bydd hyn yn gymorth mawr i’r gronfa atgyweirio – gobeithio y gallwn ddechrau cyn hir.

Pen-blwydd

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Mr Robin Jones, 14 Pentre Llandygái, a fydd yn cael ei ben-blwydd yn 91 oed ar 20 Mawrth. Gobeithio y cewch ddiwrnod wrth eich bodd Robin.

Pen-blwydd Arbennig

Dymuniadau gorau i Mrs Mair Leverett, The Anchorage, Pentre Llandygái, a fydd yn dathlu ei phen-blwydd arbennig ar ddydd Iau, 9 Ebrill, yn 70 mlwydd oed. Gobeithio y cewch

ddiwrnod i’w gofio Mair.

Bydd Mrs Muriel Owen, 5 Pentre Llandygái, yn dathlu ei phen-blwydd arbennig a hithau yn 80 oed ar ddydd Gwener, 17 Ebrill. Pob hwyl i chi, Muriel, a mwynhewch eich hunan.

Ar ddydd Sadwrn, 25 Ebrill, bydd Miss Mary Robinson, 6 Pentre Llandygái yn dathlu ei phen-blwydd arbennig yn 90 oed. Gobeithio y cewch ddiwrnod hapus, Mary, ond peidiwch â gwledda’n ormodol.

Eglwys Sant Tegai

Gwaeledd

Dymunwn wellhad buan i Jane Couch, Gwynne Edwards, Enid Gardners, Harry Gross, Dorothy Hanks, Aurdey McSorley, Joy Radcliffe a’r rhai sydd yn wael ond yn dymuno aros yn ddiennw – llwyr wellhad i chi.

Diolch

Diolch o galon i Mrs Phyllis Davies ac aelodau Maes y Groes am drefnu noswaith o fwyniant i aelodau o’r tair eglwys yng Ngwesty’r *Split Willows*, Llanfairfechan, nos Wener, 6 Chwefror. Roedd pawb wedi eu plesio’n arw gyda’r bwyd, y gweini a’r gwasanaeth. Diolch yn fawr i staff y *Split Willows* hefyd.

Te Crempog

Diolch yn fawr i aelodau Eglwys y Santes Fair, Tregarth, am eu croeso i de crempog ddydd Mawrth, 17 Chwefror. Bu Rosemary a Rhian yn brysur iawn yn gwneud y crempogau blasus a Ceri yn derbyn y tâl mynediad ac yn gwerthu tocynnau raffl. Ddiwedd y noson cafwyd cystadleuaeth taflu crempog a’i dal yn y badell. Cafodd y plant well hwyl na’r oedolion ar ddal y crempogau, er bod Rhian a Harri wedi llwyddo’n dda.

Dydd Mercher Lludw

Cawsom wasanaeth undebol yn Eglwys Sant Tegai fore Mercher, 18 Chwefror gyda’r Parchedig John Matthews a’r Barchedig Christina McCrea yn gwasanaethu a John ar yr organ hefyd. Roedd yn wasanaeth teimladwy a hyfryd iawn.

Dydd Gŵyl Ddewi

Daeth nifer dda i wasanaeth y cymun ar Fawrth y cyntaf, gyda’r rhan fwyaf ohonynt yn gwisgo cenhinen Pedr ar labedau neu goleri eu cotiau i ddathlu gŵyl ein nawddsant. Y Parchedig John Matthews oedd yn Gwasanaethu, Geraint Gill wrth yr organ, Edmond ac Ann yn darllen a Rhian yn cyflwyno’r weddi. Roedd y canu yn ardderchog a phleser oedd cael bod yno. Diolch yn fawr i chi i gyd.

Pen-blwydd

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Hazel a Pauline, a fydd yn dathlu eu pen-blwydd ar yr un diwrnod, sef dydd Gwener, 17 Ebrill. Gobeithio y cewch amser hapus yng nghwmni eich teulu a’ch ffrindiau.

Talybont

Neville Hughes,
14 Pant, Bethesda
☎ 600853

Ysbyty

Gwellhad buan i Keith, 13 Dolhelyg, sydd wedi cael triniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Eglwys Maes y Groes

Brian

Gyda thristwch daeth y newydd am farwolaeth Brian Hughes, 28 Bro Emrys, ar ddydd Llun, 9 Chwefror, yng Nghartref Nyrsio Cerrig yr Afon, lle derbyniodd ofal arbennig yn ystod ei ddyddiau olaf.

Cynhaliwyd ei angladd ar 19 Chwefror yn Eglwys Maes y Groes, lle bu’n aelod ffyddlon ac yn glochydd am rai blynyddoedd. Arweiniwyd y gwasanaeth gan ein ficer, y Parchedig John Matthews, gyda Martin Brown wrth yr organ. Darllenwyd atgofion am Taid gan Bethan a Cadi, ei wyresau.

Yn dilyn y gwasanaeth yn yr amlosgfa, claddwyd ei lwch ym mynwent yr eglwys gyda’i ddiweddar briod, Joan.

Dymuna aelodau’r eglwys estyn eu cydymdeimlad at Arwyn, Cerys a’r teulu yn eu colled.

Hoffai Arwyn, Cerys, a’r teulu ddiolch o waelod calon am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd ganddynt, yn cynnwys yr holl gardiau a galwadau ffôn. Diolch hefyd am y rhoddion hael tuag at Ymchwil Canser, Eglwys Maes y Groes a Chartref Cerrig yr Afon.

Cinio

Cynhaliwyd ein cinio blynyddol ar nos Wener, 5 Chwefror, yng Ngwesty’r Helygen Hollt (Split Willow). Llanfairfechan. Braf oedd gweld cymaint o ffrindiau o eglwysi Llandygái a Thregarth wedi ymuno â ni.

Treuliwyd noson hwyliog a phawb wedi mwynhau’r wledd mewn awyrgylch hapus. Hoffem ddiolch i berchnogion y gwesty am drefnu sgrin deledu er mwyn i’r dynion gael dilyn y rygbi. Diolch hefyd i bawb gyfrannodd at y raffl.

Ar ddiwedd y noson cyflwynwyd tusw o flodau i Phyllis Davies gan y Parchedig John Matthews, mewn gwerthfawrogiad o’i gwaith caled i wneud y noson mor llwyddiannus.

Ysbyty

Drwg oedd gennym glywed fod Pauline, Tyddyn Iolyn, merch-yng-nghyfraith Sheila Owen, wedi treulio cyfnod yn Ysbyty Gwynedd yn derbyn triniaeth yn ddiweddar. Hoffai ddiolch i bawb am eu caredigrwydd tuag ati, ynghyd â’r cardiau, anrhegion a’r galwadau ffôn a dderbyniodd.

Capel Bethlehem

Oedfaon y Sul

Mawrth 22: Dim Oedfa ym Methlehem ond gwahoddir pawb i Gyfarfod Sefydlu’r gweinidog yng Ngharmel Llanllechid am 5.00 o’r gloch;

Mawrth 29: Parchg. Geraint S. R. Hughes, Pwllheli;

Ebrill 5: Parchg. R. O. Jones, Gaerwen;

Ebrill 12: Gweinidog;

Ebrill 19: Mr. Dafydd Iwan;

Ebrill 26; Gweinidog.

Oedfaon am 2.00 oni nodir yn wahanol.
Croeso cynnes i bawb.

Cymwynaswr

Dymunwn ddiolch o galon i Mr. Victor Jones, Bro Emrys, am ei gymwynasau yn trwsio pethau trydanol yn y capel yn ddiweddar. Diolch yn fawr iawn.

Pentir

Anwen Thomas,
Min yr afon, 11 Rhydygroes, Pentir
☎ **01248 355686**

Eglwys St. Cedol, Pentir

Clwb 100 Mis Chwefror 2015

1af. Rhif 65 Pamela Smith, Tregarth
2ail. Rhif 47. Ian Williams, Rhiwlas
3ydd. Rhif 27. Ann Illsley, Pentir

Te Crempog

Prynhawn Sadwrn y 14 Chwefror
cynhaliwyd Te Crempog yn y Ganolfan,
Glasinfryn, cafwyd brynhawn hwyliog a
mwynhawyd crempogau blasus. Diolch i
bawb am eu cefnogaeth.

Swper Gŵyl Ddewi

Nos Sadwrn y 28 Chwefror mwynhawyd
Swper i ddathlu Gŵyl ein Nawddsant a
pharatowyd gwledd o fwydydd
traddodiadol Cymreig. Mwynhawyd y
wledd a diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Cofion

Anfonwn fel Eglwys gofion cynnes at Mrs.
Janet Rees, Pentir a Mrs. Avrill Thomas,
Rhyd y Groes, gan nad yw’r ddwy yn dda
ei hiechyd. Pob bendith i’r ddwy ohonoch.

Hefyd y mae'n cofion yn cael eu hymestyn
i Christina a'i theulu, gan nad yw mam
Christina yn dda ei iechyd yn yr Iwerddon,
cofion cynnes i chwi i gyd fel teulu.

Prynhawn o hwyl

Prynhawn Sadwrn y 4 Ebrill Bydd
prynhawn o hwyl yn cael ei gynnal yn y
Ganolfan, Glasinfryn am 2.00 y prynhawn.
Bydd helfa wyau Pasg, gêm o fingo,
tombola, ambell stondin a lluniaeth ysgafn.
Bydd cystadleuaeth o addurno wy ac
"Easter Bonnet" y ddwy i'w barnu ar y
prynhawn. Croeso cynnes i bawb ymuno
yn yr hwyl.

Glasinfryn Caerhun

Marred Glynn Jones
2 Stryd Fawr, Glasinfryn, Bangor
LL57 4UP **01248 351067**
Marred567@btinternet.com

Sefydliad y Merched

Llywyddwyd ein cyfarfod ar yr 11eg o
Chwefror gan Sarah Flynn, ac wedi croesawu'r
aelodau a dymuno’n dda i Margaret Griffith ar
ôl ei hanhwylder, deallom fod Mrs Janet Rees
gartref ar ôl gwaeledd ond yn dal i dderbyn
triniaeth. Dymunwn yn dda iddi a chofiwn
amdani’n annwyl iawn.

Mwynhawyd ein paned, wedi ei pharatoi gan
Mair a Carol, cyn i Sarah groesawu ein gŵr
gwadd, ac enillwyd y raffl gan Mrs Muriel
Pritchard.

Ein gŵr gwadd oedd Mr C Goodey. Mae’n
gerddwr a dringwr heb ei ail ac roedd wedi
dod atom i ddangos ffilm inni.

Mae ef a’i wraig yn mynydda’n gyson ac yn
cerdded llwybrau mynyddoedd ar draws y
wlad (neu’r byd mae’n debyg). Ei destun oedd
"Walking in the clouds". Wel wir, dyma’r
union beth oedd wedi ei wneud ym
mynyddoedd y Dolomites.

Aeth pedwar ohonynt i gerdded a dringo’r
mynyddoedd creigiog, serth sy’n gwahanu
Awstria a’r Eidal. Mae llwybrau cul ac igam
ogam wedi eu naddu ar ochrau serth y
Dolomites gydag un canllaw ar un ochr i afael
ynddo. Olion y rhyfel sydd i’w gweld ar y
mynyddoedd hyn sy’n ymestyn am 60 milltir
ac i’r rhai sy'n cofio maent yn hanesyddol.

Roedd y llwybr cerdded a ddewiswyd gan y
Goodeys a’u ffrindiau yn creu arswyd arnom
ac fel dywed y Sais “Not for the fainthearted”!
Mwynhawyd y sgwrs yn fawr iawn er i ambell
lun godi gwallt ein pen!

Dwi ddim yn meddwl y bydd aelodau
Glasinfryn yn dewis gwyliau cerdded yn y
Dolomites ond dyna fo, pawb a’i bethau!
Diolchwyd i Mr Goodey gan Sarah.

Rhiwlas

Iona Jones
17 Bro Rhiwen, Rhiwlas
☎**01248 355336**

Lladrad

Mae’r heddlu yn apelio am wybodaeth ar ôl i
golofn o lechen gael ei dwyn o lwybr sy’n
arwain o Fynydd Llandygái i Riwlas. Mae’n
debyg i’r golofn yma fod yn ei lle am yn agos i
ganrif. Roedd yn mesur saith troedfedd o
uchder ac yn sefyll ar y ffin rhwng eiddo Stad
y Penrhyn a Stad y Faenol yn y dyddiau a fu.
Mae trigolion Rhiwlas wedi’u synnu a’u
cythruddo gan y lladrad yma ac yn gobeithio y
bydd yr heddlu yn llwyddo i ddal y rhai sy’n
gyfrifol. Hefyd y mae’r Cynghorydd Hefin
Williams yn apelio am lun o’r gwreiddiol.

Flynnyddoedd yn ôl arferai chwarelwyr y
pentref gerdded i’r gwaith dros Ben Clip ac
roedd dwy giât i’w hagar a’r tir rhwng y ddwy
yn dir comin. Yn ôl stori a glywodd John Huw
Evans gan ei ewythr roedd y chwarelwyr wedi
cael llond bol ar agor y ddwy giât felly
roeddent yn tynnu yr un agosaf i’r pentref a’u
thaflu ond fe fyddai gweithwyr stad y Faenol
yn ei rhoi’n ôl bob tro. Yr awgrym oedd bod y
stad yn ceisio meddiannu’r tir comin.

Cydymdeimlo

Daeth profedigaeth i ran Mrs Maggie Picton,
15 Bro Rhiwen. Yn 80 oed bu farw ei mam,
Mrs Queenie Williams o Dregarth. Fe
dreuliodd hi a’i brodyr a’i chwiorydd eu
blynnyddoedd cynnar yn Rhiwlas ac roedd yn
briod â’r diweddar Sam Williams.
Cydymdeimlwn â Maggie a’i chwaer Jos a’u
teuluoedd a hefyd ag Ifan, 33 Bro Rhiwen a
oedd yn frawd i Quennie. Cynhaliwyd yr
angladd ym mynwent Llanddeiniolen.

O’r ysbyty

Braf yw nodi fod tri adref wedi cyfnod yn yr
ysbyty. Fe dreuliodd Mr John Huw Evans
gyfnod yn Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Eryri.
Yn falch o fod adref hefyd y mae Miss Megan
Hughes, Lôn Plas, fe dreuliodd hithau gyfnod
yn Ysbyty Gwynedd. Un arall a fu yn yr
ysbyty yw Mr Ivor Hughes, Cae Glas, cafodd
lawdriniaeth ar ôl cael anffawd gartref. Cofion
a dymuniadau gorau i’r tri ohonoch.

Pysgota



Y mae Elfyn Jones-Roberts, Cae Glas yn hoff
o bysgota ac yn ddiweddar bu wrthi yn Y
Graig Lwyd ym Mhenmaenmawr. Fe gafodd
gryn lwyddiant oherwydd fe ddaliodd frithyll
yn pwyso 15 pwys a hanner! Nid stori celwydd
golau yw hon, rydym yn gwybod fod tuedd
gan bysgotwyr ar adegau i or-ddweud. Mae
hon yn stori wir, mae’r llun yn dweud y cwbl.
Llongyfarchiadau Elfyn a hwyl ar ei goginio!

Diolch

Y mae Miss Megan Wyn Hughes, Lôn Plas yn
dymuno diolch i’w theulu, ffrindiau a
chymdogion am eu caredigrwydd tuag ati yn
ystod ei arhosiad yn Ysbyty Gwynedd.

Merched y Wawr

Cangen Rhiwlas

Llywyddwyd cyfarfod Mis Ionawr gan
Iona ac roedd nifer o ymddiheuriadau.
Llongyfarchwyd Linda ar ei llwyddiant yn
yr adran gelf yn y Ffair Aeaf yn
Llanelwedd. Hefyd roeddem yn anfon ein
cofion at Megan a oedd yn Ysbyty
Gwynedd. Eglurodd Annes ei bod yn
cymryd rhan mewn Distawrwydd
Noddedig ac eleni mae’r pwyllgor yn
casglu tuag at bobl ifanc sydd â nam ar eu
golwg. Cawsom noson gartrefol pryd
roeddem yn trafod testun y noson, “Pawb
at y peth y bo”. Mae’n amlwg fod darllen
yn boblogaidd iawn, bu Helen ac Annes yn
trafod eu llyfrau cyfredol, y ddau yn
fywgraffiadau. Soniodd Linda am declyn
dal jeli ar ffurf cwningen a gafodd gan ei
nain. Uchafbwynt y noson, mae’n debyg,
oedd cyfraniad Gwen, y mae wrth ei bodd
yn coginio ac ar y noson fe wnaeth
Tiramasw hynod o flasus ar ein cyfer.
Pwddin o’r Eidal ydyw a chyfieithiad
llythrennol o’r enw ydyw “rhywbeth i
godi’r galon” a dyna’r union beth a wnaeth
ar noson oer. Rysâit gan Dudley a
ddefnyddiodd ac yn ddiddorol roedd Gwen
wedi ei ddysgu pan oedd yn athrawes yn
Ysgol Rhydfelen.

Diolchwyd i Linda am y baned a Helen
enillodd y raffl. Edrychwn ymlaen am y
cyfarfod nesaf pan fydd y Boncathod yn
ein diddanu.

Clwb Rhiwen

Cyfarfod Chwefror11

Daeth yr aelodau â phethau a oedd o ddiddordeb iddynt a chawsom brawn difyr yn trafod yr amrywiol bethau megis hen gardiau post, llyfryn a gafwyd am fynychu’r Ysgol Sul, dyddlyfr nyrs yn 20au’r ganrif o’r blaen, hanes gwesty nid anenwog yn Llandudno. Pam a Dee oedd yn gyfrifol am y te ac enillwyd y wobr lwcus gan Frances.

Cyfarfod Chwefror 24

Fe aethom i gaffi yn y Felinheli i ddathlu Gŵyl Ddewi, er ychydig yn gynnar. Cawsom gawl cennin, amrywiaeth o frechdanau a phaned ac roedd pawb wedi’u plesio. Diolchwyd i Ann am wneud y trefniadau.

Mynydd Llandygái

Theta Owen
Gwêl y Môr,
Mynydd Llandygái.
☎ 600744

Cydymdeimlad

Anfonwn ein cydymdeimlad at Siân Turner a’r teulu. Ffordd Hermon, yn eu galar o golli mam, mam-yng-nghyfraith a nain hoffus iawn. Cofion atoch fel teulu.

Cofion

Cofion at bawb sydd ddim yn dda ar hyn o bryd; dymunwn adferiad buan ichi.

Eglwys y Santes Ann a’r Santes Fair

Gwasanaethau

Mawrth 15: 9.45 Sul y Fam - Cymun Bendigaid
Mawrth 22: 9.45 Boreol Weddi
Mawrth 29: 9.45 Boreol Weddi
Ebrill 2: 6 p.m. Dydd Iau Cablyd - Cymun Bendigaid
Eglwys St. Cedol, Pentir
Ebrill 3: 2 p.m. Dydd Gwener y Groglith (Gweler yr hysbysfwrdd am fwy o wybodaeth)
Ebrill 5: 9.45 Sul y Pasg - Cymun Bendigaid
Ebrill 12: 10 y.b. Cymun Bendigaid (Yr unig wasanaeth yn y plwyf y Sul hwn).

Estynnwn groeso cynnes i chwi oll ymuno a ni yn ein gwasanaethau dros Ŵyl y Pasg.

Cynhelir y "Ffair Basg" eleni rhwng 11.00 a 3.00 o'r gloch ddydd Sadwrn, 28ain Mawrth. Bydd Cawl a bara ar gael dros yr awr ginio; hefyd ein stondinau arferol. Cofiwch ymuno a ni naill ai am gawl neu baned a sgwrs.

Anfonwn ein cofion cywiraf at bawb sy'n sâl ar hyn o bryd; brysiwch wella.

Os oes unrhyw un yn dymuno derbyn Cymun yn ei gartref dros Ŵyl y Pasg cysylltwch ag un o'r wardeiniaid - Peter Price (601199 neu Janet Williams (600434).

Tregarth

Olwen Hills
(Anti Olwen),
44 Bro Syr Ifor,
Tregarth
☎ 600192

Angharad Williams,
23 Ffordd Tanrhiw,
Tregarth
☎ 601544

Gair o’r Cyngor

Trafodwyd mater difrifol y pilar llechi a gafodd ei ddwyn oddi ar y llwybr cyhoeddus rhwng Mynydd Llandegai a Moelyci.

Cytunodd y Cyngor bod y mater yma yn creu cryn boendod i’r gymuned. Roedd y Cyngor yn pryderu yn fawr iawn ynglŷn â’r mater yma a byddai’n ddiolchgar iawn petai unrhyw un sydd gydag unrhyw wybodaeth yn gysylltu gyda’r Heddlu neu aelod o’r Cyngor. Nodwyd bod newid mawr wedi bod yn Neuadd Pentref Tregarth gan ei fod wedi cael cegin a sied newydd.

ROBERTS – Maureen Elizabeth,
42 Tal-y-cae, Tregarth

Dymuna Eifion, Tony, Dylan a’r teulu ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli gwraig, mam a nain arbennig. Diolch i’r Parchedig Geraint Roberts am ei wasanaeth urddasol ar ddydd yr angladd ac i Mr Wyn Williams yn organydd. Diolch yn fawr am y rhoddion hael tuag at Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd, a diolch i Mr Gareth Williams am ei wasanaeth trylwyr ac urddasol.

Eglwys y Santes Fair

Gwasanaethau

Mawrth
22 Cymun Bendigaid 9.45yb
29 Sul y Blodau 10.30yb
Ebrill
05 Sul y Pasg – Cymun Bendigaid 9.00yb
12 Cymun Bendigaid 9.45yb
19 Boreol Weddi 9.45yb

Clwb Cant Chwefror
£10 (44) Mrs Babs Roberts
£10 (92) Mrs Janet Hughes
£5 (39) Mrs Beryl Brown

Mae cwrs Garawys yn cael ei gynnal bob prynhawn dydd Mercher am 2.00 y prynhawn yn ystod y Garawys – Croeso i bawb ymuno.

Cynhelir y festri Pasg blynyddol nos Fercher, 25 Mawrth am 6.00 yr hwyr. Mae croeso i bawb ddod i’r cyfarfod. Cafodd pawb hwyl yn y te crempog a gwnaed elw o £120. Diolch i bawb am gefnogi.

CHRIS GRIFFITHS

Trwsio ffenestri upvc, drysau,
cloeau, bachau, twll llythyrau ac
unedau gwydr wedi chwythu



18 Mill Lodge
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB

☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

Merched y Wawr Cangen Tregarth

Nos Lun, 2 Mawrth, dathlodd y gangen Ŵyl Ddewi gyda chinio yn y Caban, Brynrefail. Croesawyd pawb o'r aelodau gan Alison a mwynhawyd cinio tri chwrs blasus dros ben. Yna daeth Gwilym Bowen a Gethin o bentref Bethel i'n diddanu gyda chaneuon gwerin i gyfeiliant mandolin, ffidil a gitâr. Roedd yn noson gartrefol braf a phawb wedi mwynhau'r bwyd, y gerddoriaeth a'r sgwrsio. Diolchwyd i'r ddau a fu'n diddanu gan Myfanwy a Buddug ac i'r tair swyddog wnaeth drefnu'r noson o ddathlu.

Bydd y gangen yn cyfarfod nesa Nos Lun, Mawrth 30 yn Festri Capel Shiloh gyda noson o waith llaw dan ofal Margaret Jones a'i merch Jen Temple Morris a hynny am 7.30.

Capel Shiloh

Ysgol Sul 10.30
Oedfa nos 5.00

Mawrth 15 Parchedig Idris Thomas
(Sul y Mamau)
Mawrth 22 Trefniant Lleol
Mawrth 29 Oedfa Deulu (10.30) gyda'r
Parchedig Philip Barnett
Ebrill 5 Parchedig Gwynfor Williams,
Caernarfon
Ebrill 12 Trefniant Lleol
Ebrill 19 Parchedig Jennie Hurd
Ebrill 26 Parch. W.R.Williams, Y Felinheli

Bu aelodau'r Ysgol Sul yn cymryd rhan mewn dathlu Gŵyl Ddewi yn Neuadd Ogwen, Dydd Sul, Mawrth 1. Eu bwriad oedd cymryd rhan yn yr orymdaith ond gan fod y glaw wedi dod i ddifetha'r cwbl ni wnaethant lwyddo i gerdded eleni. Gwell tywydd flwyddyn nesa !! Ond hyfryd oedd cael cyfle i weld baner newydd sbon Ysgol Sul Shiloh yn chwifio ar y llwyfan yn Neuadd Ogwen. Bu'r plantos yn canu a diolch i bob un ohonynt am gynrychioli aelodau'r capel. Diolch Siwnamis, Caleb, Elysteg, Iestyn, Gwenno, Gwenlli, Hannah, Nel a Myfi. Diolch i Christine am eu hyfforddi ac i'r rhieni am eu cefnogaeth.

Cydymdeimlo

Anfonwn ein cydymdeimlad at ddau deulu a wynebodd brofedigaeth yn ystod yr wythnosau diwethaf: Bu farw Mrs Maureen Roberts, 42 Tal y Cae a chydymdeimlwn gyda'i phriod Eifion, ei meibion Tony a Dylan a gyda gweddiill y teulu yn eu galar. Daeth profedigaeth i ran Einir ac Elfed Williams, 19 Tal y Cae, pan fu farw tad Einir, sef Mr Griffith Williams (Griff Siop) Llanllechid. Anfonwn ein cofion a'n cydymdeimlad cywiraf gyda'r holl deulu. Cofiwn yn arbennig am fam Einir sydd hefyd yn wael ei hiechyd.

Clwb 100 Canolfan Tregarth

Mis Ionawr
27 Sulwen Jones £15
30 Sulwen Roberts £10
53 Nigel Beidas £5

Mis Chwefror
23 Gwenda Davies £15
12 Sulwen Jones £10
53 Nigel Beidas £5

Braichmelyn

Rhiannon Efans,
Glanaber, Pant, Bethesda
☎ **600689**

Cydymdeimlad

Y mae’n cydymdeimlad yn ddwys â Mrs Beryl Orwig, Cilcafan, sydd wedi colli nai a chefinder annwyl iawn, sef Elwyn Parry o’r Wyddgrug. Ond hogyn o Rachub oedd Elwyn. Anfonwn ein cofion at ei briod, Rhiannon, Rhys a Lisa a’r teulu i gyd yn eu colled.

Y mae’n cydymdeimlad yr un mor ddwys gyda Gareth Hughes, 19 Gernant, yntau wedi colli cefnder yn Brian Hughes, Talybont - un arall o hogia Braichmelyn wedi mynd. Rydym yn anfon ein cofion at deulu Brian.

Daliwn i feddwl am y rhai sy’n gaeth i’w cartrefi oherwydd oedran a gwaeledd.

Marchnad Ogwen

Croeso i Farchnad mis Ebrill sydd yn cael ei chynnal fel arfer yn Neuadd Ogwen. Y dyddiad yw 11 Ebrill a’r amser o 9.30 - 1.30. Erbyn hyn, mae gan Farchnad Ogwen ystod eang o fwydydd a chrefftau ac ar hyn o ni all gynnig stondin barhaol i neb newydd. (Mae croeso i unrhyw un fynd ar y rhestr aros wrth gwrs gan fod amgylchiadau yn newid yn aml). Fodd bynnag, mae'r 'Stondin Un Tro' ar gael i rywun sydd eisiau rhoi cynnig ar werthu yn y Farchnad. Mae'r manylion a'r canllawiau ar gael ar ein Stondin Gwybodaeth yn y Farchnad bob mis.

Bu Stondin Elusen mis Chwefror yn llwyddiant mawr gyda Haf Thomas yn gwerthu ei chardiau i elusen Marie Curie. Mae Haf yn dewis elusen wahanol bob blwyddyn ac wedi dod a'r cyfnod Marie Curie i ben gyda siec o £2350! Mae 'na bobl dda yn y byd 'ma yn does. Llongyfarchiadau gan bawb ym Marchnad Ogwen. Bydd Haf yn ôl ar y Stondin Elusen mis Tachwedd.

Mae Stondin Elusen mis Ebrill yng ngofal y NSPCC, mudiad arall sy'n werth ei gefnogi. Yr un nesaf sy'n rhydd yw mis Rhagfyr.

Mae'r Stondin Un Tro'r mis yma yn cael ei chynnal gan Donmarhan Jewellery & Accessories. Yr un nesaf sy'n rhydd yw Mai neu Orffennaf.

Edrychwn ymlaen am gefnogaeth leol i bobl leol bob mis.

Am wybodaeth gyfredol am y Farchnad, ewch i'n gwefan www.marchnadogwen.co.uk neu Facebook.


Gwersi Cyfrifiadur am Ddim!

Mae Alun Davies yn cynnig gwersi cyfrifiadur i ddechreuwy'r ar ddefnyddio'r rhyngwyd ac e-bost, ymysg unrhyw beth arall, yn rhad ac am ddim, ar bnawn dydd Mawrth, 2.00pm.

Os oes gennych ddiddordeb, ffoniwch Alun ar 07761 610 808. Lle i 5 yn unig. Rhaid dod â gliniadur/tabled eich hunain.

DADORCHUDDIO COFEB Gan Andre Lomozik

Wrth ddarllen trwy hen rifynnau o’r Herald Cymraeg dois ar draws adroddiad diddorol yn rhifyn Ionawr 1904 o dan y teitl ‘Dadorchuddio Cofeb’ er cof am y Parchedig Thomas Roberts.



Ganwyd Thomas Roberts yn y Green, ger Dinbych ar y 19 Awst 1835. Enwau ei rieni oedd John a Jane Powel Roberts. Bu farw ei dad pan oedd Thomas yn dair blwydd oed ac fe’i claddwyd fis Mawrth 1838. Yn blentyn bu Thomas yn ysgol Jonah Lloyd, pregethwr gyda’r Annibynwyr. Aeth yn was fferm i’w ewythr yn 13 oed ar fferm Tŷ Draw ger yr Wyddgrug. Wrth ei ddyletswyddau gyda’r ceffylau fe ddychrynwyd un ohonynt ac anafu ei glun. Ceryddwyd Thomas Roberts yn fawr iawn ac o’r herwydd heliodd ei bac a cherddodd adref. Aeth yn ôl i’r ysgol Frutanaidd yn Ninbych, ac ar ôl treulio blwyddyn yno cafodd ei brentisio yn swyddfa Thomas Gee, bu yno am naw mlynedd (1850-59) yn gysodydd i gychwyn, yna’n gynorthwyr i Thomas Gee fel golygydd. Yn Ionawr 1859 yng nghyfarfod misol Llanellidan, trefnwyd iddo ddechrau pregethu, aeth i athrofa’r Bala am bum mlynedd cyn gadael fis Ebrill 1864 i’w ofalaeth gyntaf yng Ngholwyn. Bu yno am ddwy flynedd a hanner. Yn 1867 derbyniodd alwad unfrydol o eglwys Jerusalem Bethesda.

Priododd â merch y Parchedig Rees Jones o’r Felinheli yn y flwyddyn 1870, a ganwyd iddynt un mab, Arthur Rees Roberts. Bu’r Parchedig Thomas Roberts yn weinidog yn Jerusalem a Thy’n y Maes am dri deg tri o flynyddoedd, a bu farw ym Mangor ar y 24 o Dachwedd 1899.

Dyma fel mae’r adroddiad yn y papur yn ymddangos:- “DADORCHUDDIO COFEB - Yr oedd eglwys Jerusalem ers tro wedi penderfynu gosod yn y capel gofeb am y diweddar weinidog - y Parch. Thomas Roberts.

Yn ddiweddar, rhoddwyd y penderfyniad mewn grym. Archwyd tabled hardd, a cherfiwyd geiriau priodol arno; a nos Sadwrn cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus i’w dadorchuddio. Daeth cynmiliad mawr yng nghyd. Yr oedd y capel yn rhwydd llawn. Cymerwyd y gadair gan Mr Griffith Jones, Pen y Bryn - y blaenor hynaf.

Dechreuwyd y gwasanaeth gan Mr Thomas Roberts, blaenor hynaf Brynteg. Yna, darllenodd Mr D. G. Davies, Hengoed, lythyrau oddi wrth y Parchn. J. O. Jones B. A., Bala, a Hugh Ellis Maentwrog, yn gofidio yn herwydd eu habsenoldeb. Dau o blant Jerusalem ydyw’r ddau weinidog hyn. Ac ystyrient Mr Roberts fel tad ac athro iddynt. Yr oedd eu llythyrau yn hynod o flasus, ac yn atgofio i’r gynulleidfa brif nodweddion cymeriad Mr Roberts. Galwyd wedyn ar Mrs Jones, Cloth Hall, un o chwiorydd hynaf yr eglwys, a gweddw un o flaenoriaid Jerusalem i gyflawni’r seremoni o ddadorchuddio'r gofeb.



Gwnaeth hi ei rhan gydag urddas teilwng o’r amgylchiadau. Datganodd ei theimladau hiraethus ar ôl Mr Roberts, a darllenodd y geiriau argraffedig yn hyglyw. Ar ôl hyn, caed hanes yr achos yn Jerusalem yn ystod gweinidogaeth Mr Roberts am y cyfnod o 33 mlynedd gan Mr T. G. Williams, Coed-y-parc. Gwnaeth y Parch W. W. Lloyd, Brynteg, gyfeiriad at gysylltiad â gwaith Mr Roberts yng nglyn â’r genhadaeth gartrefol, yr hwn sefydliad, yn ôl tystiolaeth pawb a wyddai rywbeth am dano, oedd wedi llyncu bryd y gweinidog ymadawedig i raddau mawr iawn.

Un o’r pethau a mwyaf o fynd arno yn y cyfarfod ydoedd anerchiad yr hen batriarch o Hermon - Mr Richard Lloyd, yn awr yn 89 mlwydd oed, ac yn cael ei adnabod yn y Corph fel “Archddiacon Sir Gaernarfon”. Yr oedd yn adnabod Mr Roberts yn dda, a gwyddai am ei wendidau - os gwendidau hefyd - yn gystal â’i ragoriaethau, ac yr oedd yn onest a gwreiddiol wrth eu hadrodd. Darluniodd Mr Roberts yn fyw iawn yn y gwahanol gylchoedd y byddai yn troi ynddynt. Ar ei ôl ef, cafwyd anerchiad gan y Parch Evan Jones, Caernarfon, cyfaill calon i Mr Roberts mewn cylchoedd o’r tu allan i ardal Bethesda. Rhoes Mr Jones amlinelliad clir o brif nodweddion ac o alluoedd Mr Roberts yn trin prif bynciau a phrif faterion y cyfundeb yn Gyfarfodydd Misol, y Sasiwn, a’r Gymanfa Gyffredinol. Talai wrogaeth uchaf i’w alluoedd meddyliol.

Gwledd oedd anerchiad Mr Jones. Caed hefyd, ychydig sylwadau teimladwy a phwrpasol gan Mr Arthur Rhys Roberts, unig fab Mr Roberts. Cafwyd ganddo ef hanes gwrthrych y gofeb yn y cylchoedd mwyaf cyfrin, sef ei ymwneud ar yr aelwyd fel priod a thad. Un arall o blant Jerusalem y cafwyd gair teimladwy ganddo ydoedd y Parch R. Pryse Ellis, Glasgoed. Dywedodd ef gydag effaith am gysylltiad Mr Roberts ag eglwys fechan Ty’n y Maes. Gwyddai ef yn dda fod gofal am y ddiadell honno.

Dyma beth sydd wedi ei ysgrifennu ar y gofeb: “Er Serchog Goffadwriaeth Eglwys Jerusalem am y Parchg. Thomas Roberts. Yr hwn a fu yn weinidog ffyddlawn i Iesu Grist yn yr eglwys hon am ysbaid 33ain ML. Yr Arglwydd Dduw a roddes iddo dafod y dysgedig. I fedru mewn pryd lefaru gair wrth y diffygiol. Cysegrodd ei fywyd a gwaith i’w Arglwydd, i’w bobl - ac i’w Cyfundeb a chafodd Orphwysfa Duw, Tachdd. 24ain 1899.”

Dyma’r gofeb gyntaf o’i math a osodwyd mewn capel yn y gymdogaeth hon, a chafwyd un o’r cyfarfodydd gorau wrth ei dadorchuddio.

Ymgymmerwr adeiladu a
gwaith saer

Ronald Jones

Bron Arfon, Llanllechid
Bethesda

☎ 01248 601052

Llwyau Caru LLEW TUDUR

Artist Cymreig sy'n cerfio
llwyau caru unigryw i
ofynion y cwsmer

07775 520657

www.llwyaucaru.cymru
Bethesda

Blodau Hyfryd

7 Rhes Buddug, Bethesda

☎ 602112 (gyda'r nos 602767)

Blodau ar gyfer pob achlysur

Priodasau, Angladdau ayyb
Ffres a Sidan

Gwasanaeth 'Archebu a Danfon'

Arbenigwr mewn lloriau coed caled



Arbenigwr mewn gosod a
selio lloriau coed caled,
adnewyddu lloriau
gwreiddiol a chyweirio
lloriau sydd wedi eu
difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.

Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

WU SHU KWAN

Bocsio Cic Tsieineaidd (Kung Fu)

Dosbarthiadau
yng Nghanolfan
Gymdeithasol
Tregarth bob
nos Fercher
6.30 tan 8.30

Un sesiwn am ddim os dewch
â'r hysbyseb hwn hefo chi

♦ Croeso i bawb, yn arbennig dysgwyr ♦
Manylion gan Jake neu Elena
Fitzpatrick - 01248 602416
neu galwch heibio'r dosbarth

J. TEMPLE MORRIS A'I FAB

Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.

07770 900531

01248 600282

jtemplemorris@btinternet.com



01248 361044 a 07771 634195



BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER
EICH HOLL ANGHENION TEITHIO -
TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATI.



GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

Modurdy Central

Ceir ail-law ar werth
M.O.T. ar gael
Hefyd

Trwsio a Gwasanaeth
Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda
☎ 601031

Sefydlwyd

1969

m.hughes
a'i fab

CONTRACTWYR TOI

2 Hen Aelwyd, Bethesda

☎ 600633

☎ (symudol) 07702 583765

Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.
Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.
Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am
waith diguro.

Cerbydau Penrhyn

CABIAU A BYSIAU MINI

Ffôn: (01248) 600072

Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd
Contractau

Contractwyr i Wasanaeth
Ambiwylans Gogledd Cymru

Blodau Racca

PENISARWAUN

*Planhigion gardd a basgedi crog o'r
ansawdd gorau*

Ffôn: 01286 870605

Elwyn Jones & Co

hefyd yn masnachu fel

Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224

*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol
Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*

Swyddfeydd eraill:

Llangefni Amlwch Benllech
(01248) 723106 (01407) 831777 (01248) 852782

Caernarfon
(01248) 673616

Pwllheli
(01758) 703000

D. Hughes a S. Roberts

Seiri Maen

Bob math o Waliau Cerrig
Ffensio : Tirlunio

Ffôn : 07766 895352

MODURDY FFRYDLAS



Profion
M.O.T.

Perchennog
A. LI. Williams

Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦

GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦ TEIARS A BATRIS ♦
GWASANAETH TORRI I LAWYR
NEU DDAMWAIN

☎ 600723
Ffacs: 605068

Pwy Sy’n Cofio Ddoe?

© Dr J. Elwyn Hughes

Dw i’n siŵr y caniatâ darllenwyr Llais Ogwan i mi grwydro’r mis yma oddi wrth lwybr arferol y ‘Dyddiadur Digwyddiadau’ a sôn am ddigwyddiad cwbl gyfoes. Ddechrau’r mis, bu farw un y mae ar genedlaethau o drigolion y Dyffryn, ac eraill, ddyled drom iddo a chredaf ei bod yn briodol iawn i ni ei goffâu gydag ysgrif goffa fer.



**Dr David Arnold Rees Pritchard
1910-2015**

Dr Alun Davies a dynnodd y llun hwn tua diwedd y 1960au neu ddechrau’r 1970au, a diolchir i Ann, ei ferch, am ei chaniatâd caredig i’w gynnwys yma

Ddiwedd y 1930au, daeth gŵr ifanc, brodor o Langollen, yn feddyg teulu i Ddyffryn Ogwen, gan brynu practis Dr John Gruffydd. Min Llyn, yn Rhes Penrhyn, Bethesda.

A dyna ddechrau gyrfa Dr Arnold Rees Pritchard yn yr ardal lle treuliodd yn agos i ddeugain mlynedd yn feddyg teulu. Symudodd ei bractis ymhen ychydig i 11 Rhes Victoria a daeth Dr Alun Davies (a anwyd yn Nhreffynnon ym 1921) yn bartner iddo yno.

Mae’n werth crybwyll, wrth fynd heibio, fod meddygfa arall yn y pentref yr adeg honno – yn Rhes Ogwen – a’r partneriaid a gofiai i yno (yn dilyn Dr Roberts a Dr William Pritchard) oedd Dr Iorwerth Mostyn Williams (a aned ym Mhatagonia) a Dr Douglas Bowen-Jones (un o Dde Cymru). Ac mae’n siŵr ei bod yn deg dweud mai dyna oes aur y meddygon teulu yn Nyffryn Ogwen – pan oedd y pedwar yn siarad iaith eu cleifion. A chofiw’n mai dyna’r cyfnod pan oedd ymweliadau â chartrefi’r cleifion yn rhan naturiol o waith meddyg a hynny bob adeg o’r dydd a’r nos, ac ar benwythnosau hefyd!

Fel y nodais o’r blaen yn Llais Ogwan, mae gen i ddyled bersonol i Dr Rees Pritchard. Pan oeddwn tua dwyflwydd oed, trawyd fi’n ddifrifol wael a chofiaf Mam yn dweud i Dr Rees Pritchard alw acw bum gwaith un diwrnod ac mai ei ofal a’i arbenigedd ef a achubodd fy mywyd yr adeg honno. Ef hefyd a ddaethai â fi i’r byd a byddai’n f’atgoffa o hynny pan welem ein gilydd ymhell ar ôl iddo adael Dyffryn Ogwen - ac roedd yn dal i gofio ac yntau dros ei gant oed!

Wedi ymddeol yn agos i ddeng mlynedd ar hugain yn ôl, symudodd ef a’i wraig, Eluned, i fyw i Gaernarfon. Bu hi farw ddydd Llun, Mawrth 12, 2012, yn 95 oed ac ymgartrefodd yntau’n ddiweddar ym Mhlas Gamedd, Llanberis, lle bu farw ddydd Sadwrn, Chwefror 28, yn 104 oed, Cynhaliwyd ei angladd yn yr Amlogsgfa ym Mangor bnawn Gwener, Mawrth 6.

Er ei golli, nid anghofiwn ei lafur, ei ofal, a’i wasanaeth clodwiw i drigolion Dyffryn Ogwen dros y blynyddoedd a chydymdeimlwn yn ddwys â’i ferch, Helen, a’i fab, John, yn eu galar a’u colled.

Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Ar ddechrau mis Chwefror aeth llawer o aelodau i gyfarfod o Blaid Lafur Arfon i ddewis yr ymgeisydd ar gyfer etholiadau Cynulliad Cymru y flwyddyn nesaf. Dewiswyd Siôn Jones, cynghorydd sirol Bethel.

Tua diwedd y mis, cynhaliwyd y cyfarfod misol yng Nghanolfan Cefnfaes, yn bennaf i wrando ar adroddiadau am waith y cynghorau a’r ymgrych etholiadol. Mynegwyd pryder am awgrymiadau Cabinet Cyngor Gwynedd i godi tâl am barcio ym Methesda ac i gwtogi ar arian yr ysgolion. Trafodwyd yr ymgynghoriad ar ddyfodol y cynghorau. Nodwyd bod Cymru’n elwa’n sylweddol o fod yn y Gymuned Ewropeaidd.

Cynhelir bore coffi’r gangen yng Nghanolfan Cefnfaes ddiwedd mis Mawrth (dydd Sadwrn yr 28ain) ond ni chynhelir cyfarfod o’r gangen tan 27 Mai oherwydd yr etholiad seneddol.

Cyngor Cymuned Bethesda

Cynhaliwyd cyfarfod misol y Cyngor ar 26 Chwefror yng Ngorffwysfan, Bethesda. Bethesda

Nodwyd fod y fainc wedi cael ei symud i ochr arall y gofeb wedi i’r cyngor wneud cais. Awgrymodd pwyllgor eiddo’r Cyngor y buasent yn fodlon cynnal y Llyfrgell pe bai Cyngor Gwynedd yn ei chau. Cytunwyd i gymryd perchnogaeth ar asedau Adwy, yn cynnwys 3 adeilad ar y stryd Fawr ym Methesda. Nodwyd bod apêl ynglŷn â’r cais cynllunio ar gyfer 37 o dai ar safle Austin Taylor. Cydsyniwyd i gais yr heddlu am neilltuo man parcio ar gyfer eu car ar y Stryd Fawr, ger swyddfa Partneriaeth Ogwen.

Llys Dafydd
Adroddwyd bod y goleuadau yn Llys Dafydd yn gweithio a bod hysbysfwrdd newydd i fyny a bod rhai o’r pwyllgor wedi bod yn tacluso’r safle. Nodwyd na fydd tâl am ddefnyddio safle Llys Dafydd ond bydd yn rhaid talu am ddefnyddio’r babell neu’r ciosg.

Cyllid
Edrychwyd ar y gyllideb ddrafft a baratowyd gan y pwyllgor cyllid a phenderfynwyd mabwysiadu praesept o £53,500 ar gyfer 2015-2016, a oedd ychydig yn llai na’r praesept am 2014 -2015.

Gorymdaith Dydd Gŵyl Ddewi
Cynhaliwyd gorymdaith Dydd Gŵyl Ddewi a bu’n llwyddiant mawr er gwaethaf y tywydd garw. Gan fod Cynulliad Cymru wedi gwrthod cau’r A5 ar gyfer yr orymdaith, penderfynwyd byddai’r daith yn cychwyn o Ddôl Goch ar hyd Lôn Las Ogwen i’r ganolfan Feddygfa ac yna i ddarford, cynhaliwyd cyngerdd yn Neuadd Ogwen. Cytunodd y Cyngor i dalu’r costau.

Gerlan
Penderfynwyd derbyn y tendr ar gyfer astudiaeth dichonoldeb ar gyfer Maes Parcio Gerlan.

Rachub
Mewn ymateb i geisiadau am ddefnyddio Canolfan Rachub, penderfynwyd bod dyfodol i’r ganolfan fel canolfan pentref, a bydd y cyngor yn mynd ati i holi am wahanol grantiau ar gyfer trwsio’r lloriau a’r waliau.

PLAS OGWEN

Dymuna'r Rheolwr - Amanda Roberts, trigolion a staff Plas Ogwen ddiolch yn fawr iawn i lawer o artistiaid a ymwelodd â'r cartref yn ddiweddar dros gyfnod y Nadolig a'r misoedd diwethaf.

Cafwyd diwrnod agored pan fu i ryw faint o'r staff wisgo i fynnu ac ambell i stondin a raffl ac aeth rhywfaint o'r elw at Plant Mewn Angen.

Mwynhawyd cyngherddau gan Tammy Jones; Côr y Penrhyn a Hogia'r Ddwylan. Ym mis Rhagfyr bu prysurdeb yn y cartref a chafwyd Parti Nadolig i'r trigolion, ac i ddilyn cafwyd cyngerdd gan Dylan o Felinheli, ac roedd pawb wedi mwynhau eu hunain yn fawr iawn.

Bu llawer o ymwelwyr yn ymweld â'r cartref yn ystod yr ŵyl, ac mae'r trigolion yn ddiolchgar iawn am haelioni a chyfeillgarwch y gymuned leol.

Croeso cynnes ar gael pob amser yn y Cartref.

MODURON PANDY Cyf.

MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio

01248 600619



moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk

Tregarth, Bangor,
Gwynedd LL57 4AY



JR SGAFFALDIAU Cyf. JR SCAFFOLDING Ltd.

YR IARD, Ffordd Stesion, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk

Ffôn/Ffacs:

01248 601754

07770 568743 (symudol)



Contractwyr Trydanol

Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig
Penrall, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257

Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk



OWEN'S TREGARTH Cludiant Preifat a Bws Mini



Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd
Arbenigo mewn meysydd awyr

01248 602260

www.owenswales.co.uk

Siop Ogwen

Cownter Gwasanaethau

Dydd Llun 10.00-4.00: Cymorth i Ferched

Dydd Llun 9:30-11:30: Banc Bwyd (Derbyn Talebau)

Dydd Mawrth 10.00-2.00: Wardeiniaid Ynni

Dydd Mercher 12.00-2.30: Banc Bwyd (Dosbarthu Bwyd)

Siop Grefftau ar agor Llun - Sadwrn

01248 602131 partneriaeth@ogwen.org

TRYDANWYR

CONTRACTWYR TRYDANOL

07551 06 32 81 / 07506 43 25 10

BETHESDA

Am unrhyw waith trydanol cysylltwch â Dylan neu
Steffan. Prisiau di-guro.



Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant
gan Alison

SAMARIAID

Mae
Llinell Gymraeg

0300 123 3011

ar gael bob nos rhwng
7.00pm ac 11.00pm

Malinda Hayward (Gwniadwraig)

Awel Deg
Penygroes, Tregarth.

Am unrhyw waith gwnïo
- trwsio, altro ac ati -

Ffoniwch
01248 601164

Tudur Owen, Roberts, Glynne a'u cwmni



DEWCH I WELD
EICH
CYFREITHIWR
LLEOL

SGWÂR BUDDUG
STRYD FAWR
BETHESDA
GWYNEDD
LL57 3AG

BETHESDA
01248 600171
bethesda@torglaw.co.uk

Cyfreithwyr

Y CYNGOR CYNTAF
AM DDIM

EWYLLYSIAU A
PHROFIANT
SYMUD Tŷ

L. Sturrs a'i feibion

sefydlwyd yn 1965

ADEILADWYR

Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda

Ffôn: 600953
Ffacs: 602571
lsturrs@googlemail.com

Côr y Penrhyn

Cyngerdd Côr Seiriol

Cynhaliodd aelodau Côr y Penrhyn gyngerdd llwyddianus iawn gyda Chôr Merched Seiriol yng Nghapel Jerusalem Nos Sul, 1 Mawrth sef Dydd Gŵyl Dewi. Roedd pawb a fynychodd y cyngerdd yn dweud bod perfformiadau'r ddau gân yn ardderchog a bod y sawl a fethodd y noson arbennig hon wedi cael colled aruthrol.

Meddai Neville Hughes o Ffordd Pant, “Roedd hwn yn gyngerdd safonol gan gânau sy'n perfformio ar lefel uchel iawn ac mi gefais i a phawb arall oedd yno bleser rhyfeddol yn gwrandao arnynt yn mynd drwy eu rhaglen.”

Ychwanegodd, “Llongyfarchiadau i aelodau'r ddau gân am eu cyfraniadau.”

Fflach Dyrfa

Efallai nad yw pawb yn gyfarwydd â'r term uchod ond yr hyn mae'n ei olygu mae'n debyg yw tyrfa o bobl yn cychwyn canu'n fyrfyr ac yn ddirybudd mewn lle cyhoeddus. Dyna wnaeth aelodau Côr y Penrhyn yn Venue Cymru, Llandudno yn ddiweddar pan aeth nifer o'r hogia draw i gyntedd y lle hwnnw i roi cyhoeddusrwydd i gyngerdd y côr gyda band y Black Dyke ym Mis Mehefin. Roedd Katherine Jenkins yn perfformio yn y Venue ar y noson ac roedd pobl yn fodlon talu hyd at £55 i wrando arni hi. Felly, mae'r pris o £20 neu £17 yn rhesymol iawn i gael gwrandao ar fand sy'n cael ei gyfrif yn fand gorau'r byd. Cofiwch ofyn i un o aelodau'r cor am eich tocynnau.



Cwmni Lleol yn Cyflwyno Llun gopiwr

Eleri Elis Williams o Neuadd Ogwen (ar y chwith) ac Alun Davies o Gôr y Penrhyn (ar y dde) yn derbyn y llungopiwr gan Arwel Griffiths o Gwmni Kon-X.

Mae cwmni Kon-X o Goed y Parc wedi cyflwyno llungopiwr fel rhan o becyn nawdd i'r côr a bydd y peiriant ar gael i lungopio dogfennau fel cofnodion, posteri a thocynnau cyngherddau ac yn y blaen. Hefyd bydd staff Neuadd Ogwen yn medru defnyddio'r peiriant i'w cynorthwyo yn eu gwaith gan mai yn y neuadd y bydd y llungopiwr yn cael ei gadw. Mae'r cor yn dymuno diolch i Kon-X am ei haelioni ac yn falch o weld perthynas dda'n datblygu rhwng cymdeithasau diwylliannol a busnesau lleol fel y cwmni hwn a chwmnïau eraill.

Er Cof
Collwyd yn y Rhyfel Mawr Garrif
i'r mis hwn

Er cof am William Moses Roberts a fu farw
02 Mawrth 1915 yn 50 mlwydd oed. Aelod
o'r Devonshire Regiment. Diolch i Andre
Lomozik am ei anfon i'r Llais.

I hysbysebu yn Llais Ogwan ac i drafod
telerau a'ch holl anghenion cysylltwch â:

Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA ☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

Cymeriadau'r Côr



Cyfres yw hon sy'n rhoi ychydig o fanylion
am aelodau Côr y Penrhyn. Yr aelod y mis
hwn yw Emyr Vaughan Evans o
Gaernarfon sy'n gyn swyddog gyda Adran
Tai Gwynedd.

- 1 **Be' ydy dy enw llawn?**
Emyr Vaughan Evans
- 2 **Oed? - 60**
- 3 **Lle wyt ti'n byw? – Caernarfon**
- 4 **Un o lle wyt ti'n wreiddiol?**
O Glanrafon ger Corwen
- 5 **Pa dri pheth fasai'n dy ddisgrifio orau?**
Tawel, Hoffi cwmni, Hapus
- 6 **Ers faint wyt ti'n aelod o'r côr?**
32 mlynedd
- 7 **Pa lais wyt ti? – Bâs 1**
- 8 **Pam wnest ti ymuno â'r Côr?**
Cael fy mherswadio gan gyfaill ond y
peth gorau a wnesi erioed (ar wahân i
briodi !)
- 9 **Pa un ydy dy hoff gân yn rhaglen y
côr? Y Tangnefeddwyr**
- 10 **Pwy ydy dy hoff ganwr/gantores?**
Steve Eaves
- 11 **Beth ydy dy farn di am ganu pop?**
Dwi'n hapus i wrando ar unrhyw fath o
gerddoriaeth.
- 12 **Oes gen ti atgof am ryw ymweliad
efo'r Côr? – Nifer fawr nad oes gofod
i'w hadrodd yma.**
- 13 **Pa ddiddordebau eraill sy gen ti y tu
allan i'r côr?**
Pêl-droed, materion cyfoes, teulu.
- 14 **Oes yna rywbeth faset ti'n hoffi gweld
y côr yn ei wneud?**
Dal i ddatblygu rhaglen wahanol ac
amrywiol.



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei
drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa,
yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa
ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

williamshy@parliament.uk



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei
drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa,
yna cysylltwch ag o yn ei swyddfa ym
Mangor neu yng Nghaernarfon

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

alunffred.jones@cymru.gov.uk

Lluniau Cyngerdd Dewi



Aelodau Clwb Nos Fawrth Capel Jerusalem




Parti Llefaru Ysgol Llanllechid.



Aelodau Ysgol Sul Capel Shiloh, Tregarth.



Côr Ysgol Dyffryn Ogwen.



Luned Elfyn, Ysgol Penybryn. (Unawd corn)



Hogia'r Bonc



Cerys Elen,
Ysgol
Llanllechid.
(Unawd corn)



Y Boncathod.

Nyth y Gân

Y Gân

Anthem lawen côr y goedwig
Glywais heddiw ar fy nhaith
Tra yn troedio yn hamddenol
A mwynhau eu cytgan faith.

Pwy a’u dysgodd hwy i ganu
Heb yr un offeryn cerdd,
A phob brigyn yno’n cysgu
Heb fod yno ddeilen werdd?

Aros am y gwanwyn oeddynt,
Amser difyr oedd i ddod,
I gael codi tai a chanu
A’r llecynnau’n derbyn clod.

Ffynnon Ffidlar

Yn ildio i’r ucheldir, a mwsog
Y meysydd warchodir;
Perlau hardd am oriau hir
Mewn heulwen fwyn a welir.

Y Newid

Mor braf yw gweld y ddaear noeth yn wyrdd
A thyfiant mor odidog ger y ffyrdd;
Ymestyn fwyfwy y mae hyd y dydd
A phawb i’w gweld yn teimlo’n sionc a rhydd.

Daw bywyd newydd i gyffroi pob man
O gopa’r mynydd serth at lawr y llan,
A gwên ryfeddol welir gan bob un
Boed yn blentyn bach, yn ddynes neu’n ddyn.

Ffarwél i’r barrug oer a’r eira gwyn
A’r rhew fel gorchudd ar hyd wyneb llyn
Lle na bu’r un cyffroad na’r un gân
Na’r un symudiad ’mysg y mawr na’r mân.

Mae’r lle mor brydferth ar ei newydd wedd
A denu’n gyson wnaiff yn fawr â’i hedd
Er mwyn i ninnau fel y bywyd gwyllt
Gael rhannu’r teimlad yno hefo’r myllt.

Dafydd Morris

Dewi Sant

Lluman Arglwydd y llannau – a gododd
I gadw drwy’r oesau
Y Gwir yn erbyn y gau,
Yn ddyn difai ei ddoniau.

Y Dynged

Mor eiddil yw’n hil a’n hiaith,
Ing ofer ofn anghyfiaith:
Y cryf a fyn iacháu craith.

Hanes ein hil ein hunain
Yw taenu gwaed, tynnu gwain,
A bore oes osgoi’r brain.

Llanw estron a’n lluniodd
Yn fyd a oedd wrth ei fodd:
Dwyn henfyd, awn o’n hanfodd.

Y taegogion o’u tagu
A dwyn eu gwlad a’i gwadu
Â dawn ystryw ei denu.

Hen wraidd yw coloneiddio:
Dymuniad gwlad a’i mynno
Yw iaith gweld a theg ildio.

Dewch yn daer, dewch ein dewraf,
Dewch ddynion, ddewch ddianaf,
Dewch, a cheisiwch harddwch haf.

Goronwy Wyn Owen

Yr Aelwyd, Sarn Mellteyrn

Ym mro Llŷn ar dymor llwyd
Wele’r haul ar yr Aelwyd.
Ar faen Cymydmaen y cwyd,
Tŷ glanwaith, teg a luniwyd.
’Does yno na chlo na chlwyd,
I rai gwâr y’i hagorwyd.
Yno’n gytûn o un nwyd
Ach anwylach ni welwyd:
Gwên i bawb, a gweini bwyd -
Da yw bara syberwyd.
Hil Llŷn yw’r rhain: llanwer rhwyd
Yr hil a geidw’r Aelwyd.

Howard Huws.

Plaid Cymru Cangen Dyffryn Ogwen

Fel mae'n arferol ar ddiwedd mis Chwefror cynhaliwyd ein cyfarfod blynyddol eleni ar nos Wener, 27 Chwefror, yng Nghanolfan Cefnfaes. Cafwyd cipolwg ar ddigwyddiadau'r flwyddyn ac rydym wedi mwynhau llawer o ddigwyddiadau megis boreau coffi, noson Dafydd Iwan a diwrnod y Sioe Amaethyddol. Roeddem hefyd yn falch o ran y gangen yn llwyddiant Jill Evans i gadw ei sedd yn Senedd Ewrop.

Yn ystod rhan gyntaf y cyfarfod hefyd etholwyd swyddogion y gangen fel a ganlyn:-Cadeirydd - Rheinallt Puw, Is-gadeirydd - Dafydd Meurig, Ysgrifennydd - Mary Jones, Trysorydd/Ysg. Aelodaeth - Neville Hughes.

Mae nifer o gynghorwyr lleol ynghyd â thri Chynghorydd Sir yn ein cangen sef Dafydd Meurig, Ann Williams a Dyfrig Jones, a diolchwyd iddynt am eu gwaith. Bydd cymhorthfa nesaf Hywel Williams A.S. yng Nghefnfaes am 2:30 dydd Gwener, 20fed o Fawrth.

Hywel Williams oedd ein siaradwr cyntaf, ac fe gawsom dipyn o'i hanes cynnar a llawer o ffeithiau difyr iawn am ei amser yn y Tŷ Cyffredin yn Llundain. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo bellach er mwyn ei ail ethol i'r senedd ym mis Mai. Llongyfarchwyd ef hefyd am ei waith diflino yn y dyffryn.

Wrth draddodi ei sgwrs ef dywedodd Rhun ap Iorwerth, A. C. sut deimlad ydy bellach i fod ar yr ochr arall, gyda'r cyfryngau yn cael ei holi ef yn hytrach nag ef yn gwneud yr holi. Bu unwaith yn gwneud cyfweliad yn 10 Stryd Downing gyda'r prif weinidog ar y pryd, a chawsom gipolwg ar ei waith fe newyddiadurwr. Clywsom fel yr oedd yn gallu bod yn hollol ddiduedd gan mai dyna oedd ei swyddogaeth fel newyddiadurwr proffesiynol.

Cymharodd yr hyn sy'n digwydd yn yr Alban a Chymru heddiw a sut, yn yr hirdymor, y gallwn ni yng Nghymru elwa fel gwlad oherwydd hyn. Mynegodd mor falch yr oedd bod nifer o bobl ifanc bellach yn gweithio gyda Phlaid Cymru a'i fod yn edrych ymlaen at y dyfodol.

Mwynhawyd lluniaeth a sgwrs ar ddiwedd y cyfarfod, ac yn y llun gwelir Rheinallt Puw, Cadeirydd y Gangen, a’r Cynghorydd Ann Williams, yng nghwmni’r ddau siaradwr gwadd.



Y bore canlynol cynhaliwyd ein bore coffi yn Neuadd Ogwen, a braf oedd gweld cynifer yno, a bod Hywel Williams wedi gallu bod yno hefyd.

Y penwythnos cyntaf o'r mis cynhaliwyd y Gynhadledd Wanwyn yn Galeri, Caernarfon, a fynychwyd gan nifer o'n haelodau.

Canolfan Hamdden Plas Ffrancon i gynnig mwy i deuluoedd

Yn ystod y misoedd nesaf bydd gwasanaeth gofal plant newydd yn cael ei sefydlu yng Nghanolfan Hamdden Plas Ffrancon, Bethesda gan gydleoli gwasanaethau a gynigir gan Gyngor Gwynedd yn yr ardal.

Bydd y Cylch Meithrin yn cael ei ariannu gan gynllun Dechrau’n Deg sy’n darparu gwasanaethau dwys ac arbenigol yn gallu parhau yn ein cymunedau er gwaethaf yr her ariannol sy’n wynebu’r Cyngor ar hyn o bryd. Mae sefydlu gofal plant Dechrau’n Deg yng Nghanolfan Hamdden Plas Ffrancon yn enghraifft wych o sut gallwn wneud i adeiladau cyfredol y Cyngor fod o fudd i’r gymuned mewn sawl ffordd wahanol.

Mae cynllun Dechrau’n Deg wedi bod yn cynnig gwasanaeth i deuluoedd ym Methesda ers Medi 2013, a bydd sefydlu cylch meithrin i ofalu am blant rhwng dwy a thair oed yng Nghanolfan Hamdden Plas Ffrancon yn galluogi i’r gwasanaeth ddatblygu ymhellach gan gynnig mwy o gefnogaeth i deuluoedd yr ardal sydd mewn angen.

Dywedodd y Cynghorydd Mair Rowlands, Aelod Cabinet Hamdden Cyngor Gwynedd: “Bydd cydleoli gwasanaethau, yn ein galluogi ni fel Cyngor i sicrhau bod gwasanaethau megis canolfannau hamdden yn gallu parhau yn ein cymunedau er gwaethaf yr her ariannol sy’n wynebu’r Cyngor ar hyn o bryd. Mae sefydlu gofal plant Dechrau’n Deg yng Nghanolfan Hamdden Plas Ffrancon yn enghraifft wych o sut gallwn wneud i adeiladau cyfredol y Cyngor fod o fudd i’r gymuned mewn sawl ffordd wahanol.

“Bydd y datblygiad hwn, sydd hefyd yn cynnwys gwelliannau i’r adeilad, o fudd mawr i’r ganolfan hamdden a’r gymuned gyfan gan sicrhau dyfodol y ganolfan am flynyddoedd i ddod.”

Gyda'r newidiadau uchod yn digwydd ym Mhlas Ffrancon gallwn gadarnhau mai Cylch Meithrin Cefnfaes sydd dan sylw a bydd y cylch yn symud i'r lleoliad newydd maes o law.

Ceir mwy o wybodaeth gan bwyllgor y Cylch ac yn y rhifyn nesaf o'r Llais. Bydd cyfarfod i'r rhieni a'r darpar rieni yn cael ei gynnal cyn gynted â phosib er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â staffio, yr oriau a'r holl drefniadau. Bydd y cyfarfod yn cael ei hysbysebu yn y Cylch yn lleol ac ar dudalen gweplyfr y cylch.

Casglu at Ward y Plant



Dymuna Siôn Guto Roberts ddiolch i drigolion Bethesda am eu cefnogaeth pan gynhaliwyd tombola ganddo yn Neuadd Ogwen i gasglu arian i ward y plant yn Ysbyty Gwynedd. Dyma lun o Siôn yn cyflwyno'r siec:

SIALENS GWIFREN WIB HYWEL YN CODI CANNOEDD I WARD ALAW

Ar ymweliad arbennig ag Uned Alaw Ysbyty Gwynedd ddiwedd Ionawr, cyflwynodd Aelod Seneddol Plaid Cymru Arfon, Hywel Williams siec o £630 i Apêl Eleanor Jones, sy'n codi arian ar gyfer prynu offer i Ward Alaw. Codwyd yr arian yn dilyn sialens Hywel Williams a rhai o staff Plaid Cymru ar y Weiren Wib yn Chwarel y Penrhyn.

Dywedodd Hywel Williams AS, “Roedd yn bleser cael cyflwyno'r siec i Eleanor heddiw. Dw i'n gwybod ei bod hi ac aelodau Pwyllgor yr Apêl wedi bod yn gweithio'n galed iawn dros y ddwy flynedd ddiwethaf, yn codi arian tuag at Ward Alaw Ysbyty Gwynedd. Mae'r Uned yn gwneud gwaith arbennig wrth drin a chefnogi cleifion a'u teuluoedd sy'n cael eu heffeithio â chanser.

Hoffwn hefyd ddiolch i bawb a wnaeth fy noddi i wneud sialens y Weiren Wib er budd yr achos da yma’

Dymuna Eleanor ddiolch o waelod calon i Hywel Williams a gweithwyr y Blaid am gymryd rhan yn y sialens, ac i'r holl noddwyr a'u cefnogodd mor hael.



Hywel Williams AS, Eleanor Jones, Ann Williams, a staff Ward Alaw gyda'r siec am £630

Ffarm Moelyci



Mae Ffarm Moelyci dan reolaeth newydd. Dan arweiniad Ymddiriedolaeth Tir Cwm Harry, mae'r weledigaeth yn glir – agor y drysau a chroesawu pawb. Er yn frwd i gadw'r ffocws amgylcheddol, mae'r rheolwyr eisiau rhoi pwyslais newydd ar sicrhau fod Moelyci yn dod yn fferm weithredol unwaith eto. Fferm wedi ei seilio ar fentergarwch ond sydd hefyd yn agored i bobl leol ac ymwelwyr.

Mae Ffarm Moelyci, sy'n cynnwys mynydd Moelyci, wedi ei leoli ar gyrion Tregarth, heb fod nepell o'r A5 a'r A55. Fferm denantiaeth o fewn Stad y Penrhyn oedd y fferm yn wreiddiol ond daeth y fferm i ddwylo mudiad cydweithredol Moelyci yn fuan yn 2000. Dan arweiniad Cwm Harry yn awr, mae'r fferm yn bwriadu gwneud nifer o newidiadau tua'r dyfodol. Bydd Diwrnod Agored llawn yn cael ei gynnal ddiwedd Mai i ail-lansio Moelyci i'r byd a'r betws ond ar hyn o bryd mae'r rheolwyr yn canolbwyntio yn llwyr ar greu canolfan fwyd lleol ar y safle. Gyda chymorth arian cyhoeddus gan gronfa Cyfenter a Chronfa Cymunedau Arfordirol, mae buddsoddiad sylweddol yn digwydd:

- Adnewyddu Siop Moelyci, lle bydd cynnyrch gerddi Moelyci ar werth yn ogystal ag unrhyw nwyddau y mae'r gymuned yn dymuno i ni eu gwerthu.
- Uwchraddio'r cyfleusterau presennol i greu Caffi ar y fferm sy'n gweini bwyd da a lleol. Bydd y caffï ar agor i bawb ac yn annog mwy i ddod i fwynhau yr hyn sydd gan Moelyci i'w gynnig.
- Creu cegin arlwygo fasnachol fydd ar gael i gynnal hyfforddiant arlwygo a hefyd ar gael i gogyddion lleol ddatblygu cynnyrch. Wedi ei leoli o fewn hen sgubor y fferm, bydd y cegin hefyd yn lleoliad gwych i gynnal digwyddiadau.

Bwriad y datblygiadau hyn yw hyrwyddo'r cysyniad o fwyd da a lleol ac i gefnogi'r gymuned i ddatblygu syniadau a mentrau busnes. Mae'n holl bwysig felly ein bod yn gwreiddio'r holl brosiect o fewn cymuned Dyffryn Ogwen a'r cyffiniau. Er mwyn gwneud hyn, rydym yn cydweithio â Phartneriaeth Ogwen i ymgynghori yn eang ar ein cynlluniau a bydd holiaduron yn cael eu dosbarthu fel rhan o'r ymgynghoriad yn y man. Os hoffech fwy o wybodaeth am yr ymgynghoriad neu os hoffech gofrestru i wirfoddoli ym Moelyci, galwch heibio Siop Ogwen neu cysylltwch â partneriaeth@ogwen.org.

Wrth gwrs, mae'r fferm ar agor i'r cyhoedd yn barod ac mae croeso mawr i chi alw i weld beth mae Moelyci eisoes yn ei gynnig:

- Siop Fferm ar agor o ddydd Mercher i ddydd Sadwrn rhwng canol dydd a 5.30 yr hwyr.
- Byddin Tir Moelyci, Dydd Sul 22ain o Fawrth am 11.00yb – cyfle cydweithredol i docio, plannu a gofalu am ein cnydau a'n perthi ffrwythau. Bydd offer yn cael eu darparu ond gofynnwn i bawb ddod a phicnic i rannu. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â lucy@cwmharry.org.uk
- Cyfres newydd o gysiau, teithiau tywys ac anerchiadau dros dymor y gwanwyn a'r haf. E.e.
 - o Tyfu'r Dyfodol– Yn dechrau ar y 14eg o Fawrth gyda chynghor ar dyfu cnydau mewn Twnel Plastig. Bydd y cysiau yn parhau trwy'r gwanwyn a'r haf i'ch cefnogi chi â chynghor wrth i chi fwrw iddi yn yr ardd.
 - o Noson Syllur ar y Sêr ar y 26ain o Fawrth
 - o Taith Corws y Wawr ar yr ail o Fai.
- Mae angen archebu llefydd ar gyfer y digwyddiadau hyn ac mae gwybodaeth ar gael ar ein gwefan www.moelyci.org

Mae Cwm Harry yn falch iawn o gael cynnig gwaed newydd, buddsoddiad sylweddol a gweledigaeth ffres a chyffrous i Foelyci. Byddem yn croesawu eich syniadau a'ch cefnogaeth i'r fenter newydd. Rydym eisiau i'r fferm wasanaethu'r gymuned yn llawn, boed hynny trwy ddarpariaeth bwyd da, darparu dihangfa o brysurdeb bywyd neu gynnig cyfleoedd gwaith yn yr ardal leol. Edrychwn ymlaen i'ch croesawu acw.

Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn?

Neuadd Ogwen

Bore Coffi
Eisteddfod Dyffryn Ogwen

Sadwrn, 21 Mawrth

10.00 tan 12.00

Mynediad £1.00

Bore Coffi

Cyfeillion Ysbyty Gwynedd

Caffi Coed y Brenin

28 Mawrth

10.00 tan 12.00

Mynediad £1.00

Canolfan Cefnfaes

Bore Coffi
Cymdeithas Jerusalem

Sadwrn 18 Ebrill

10.00 tan 12.00

Mynediad £1.00

DYDDIADUR BOREAU COFFI
2015

21 Mawrth: Neuadd Ogwen -
Eisteddfod D. Ogwen.
28 Mawrth: Cefnfaes - Plaid Lafur.
28 Mawrth: Caffi Coed y Brenin -
Cyfeillion Ysbyty Gwynedd.
18 Ebrill: Cefnfaes - Cymdeithas
Capel Jerusalem.
09 Mai: Neuadd Ogwen - Cymorth
Cristnogol.
27 Mehefin: Neuadd Ogwen -
Eisteddfod D. Ogwen.
25 Gorffennaf: Cefnfaes - Cronfa
Goffa Tracy Smith.
12 Medi: Cefnfaes - Eglwys St. Mair
a St. Anne, Mynydd Llandygai.
26 Medi: Neuadd Ogwen - Plaid
Cymru.
31 Hydref: Neuadd Ogwen -
Eisteddfod D. Ogwen.
28 Tachwedd: Neuadd Ogwen - Ffair
Nadolig y Blaid Lafur.

Pwysig
Os ydych chi'n trefnu Bore Coffi yn
ardal Bethesda, bydd y rhestr
uchod yn gymorth i chi ddewis
dyddiad gwag.
Gallwch wedyn gynnwys eich
dyddiad chi ar y rhestr hon.
Bydd yn cael ei diweddaru ac yn
ymddangos pob mis.
Anfonwch y manylion at Neville
Hughes (600853).

Marchnad Ogwen

Yr ail ddydd Sadwrn yn fisol

Mawrth 14eg
Neuadd Ogwen,
9.30am - 1.30pm

Ebrill 11eg
Neuadd Ogwen,
9.30am - 1.30pm

Bwydydd, Creffttau, Caffi

www.marchnadogwen.co.uk
Twitter #marchnadogwen
Facebook

Sesiynau Siarad i
Ddysgwyr

11-12, 2il Ddydd Sadwrn bob mis ym
Marchnad Ogwen, Neuadd Ogwen
11-12, 4ydd Dydd Sadwrn bob mis
yng Nghaffi Fitzpatrick's

Am fwy o wybodaeth neu i wirfoddoli
yn y sesiynau siarad, cysylltwch â
Meleri ar 01248 602131

Plaid Lafur

Bore Coffi

Canolfan Cefnfaes

28 Mawrth

10.00 tan 12.00

Mynediad £1.00

Canolfan Cefnfaes
BETHESDA

GYRFA CHWIST

24 a 31 Mawrth
14 Ebrill

am 7.00 o'r gloch

Dewch i fwynhau
nosweithiau difyr

EGLWYS UNEDIG
BETHESDA

'LLENWI'R
CW PAN'

Dewch am sgwrs a phaned

Bob bore dydd Iau
rhwng 10.00 o'r gloch a
hanner dydd

GOFALAETH FRO'R LLECHEN LAS

Cyfarfod Sefydlu

Y Parchedig John Pritchard

yn weinidog ar

Eglwys yr Annibynwyr

Bethlehem Talybont a Charmel Llanllechid

yng Nghapel Carmel

am 5 o'r gloch nos Sul, 22 Mawrth 2015

Llywydd: Y Parchedig Geraint S. R. Hughes

CROESO CYNNES I BAWB

EBRILL/APRIL			
NEUADD OGWEN			
3	Ffilm TALES OF THE GRIM SLEEPER (18)	7pm	£5
4	Ffilm Plant PADDINGTON (PG)	11am	£3/5
4	Gig Pesda Roc - CANDELAS, Y FFUG	7.30pm	£10
9	Ffilm Matinee SOUTH PACIFIC (U)	2pm	£5
11	MARCHNAD OGWEN	9.30am	am ddim
17	Ffilm THE BREAKFAST CLUB (15)	7pm	£5
18	MARCHNAD PESDA	9.30am	am ddim
18	Gig THE ELECTRIC SWING CIRCUS	7.30pm	£12/10
23	Ffilm Matinee THE GUNS OF NAVARONE (PG)	2pm	£5
25	Pontio ar y Lôn SH BANG	11am/2pm	£3/5
25	Gig FRANK YAMMA, LLEUWEN STEFFAN	7.30pm	£10/8

www.neuaddogwen.com

GIGS THEATR FFILM PLANT BAR/BWYD GWEITHDAI CELF

Neuadd Ogwen

Nos Fawrth, 31 Mawrth, am 7.30
THEATR BARA CAWS YN CYFLWYNO

'PUM CYNNIG I GYMRO'

(addasiad Dyfan Roberts o lyfr John Elwyn Jones)
Yr actor a'r awdur Dyfan Roberts fydd yn portreadu'r
John Elwyn hŷn ar lwyfan.
Yn ymuno â Dyfan ar y llwyfan fydd Meilir Rhys
Williams, yr actor ifanc o Lanuwchllyn,
gan bortreadu'r 'arwr' yn ei ieuencid. Betsan Llwyd fydd
yn cyfarwyddo.
Mae Dyfan, sydd yn un o sefydlwyr Bara Caws yn ôl yn
1976, yn falch o gael dod yn ôl
i weithio gyda Bara Caws unwaith eto. Dyma'r tro cyntaf i
Meilir Rhys weithio gyda'r cwmni.

Am fwy o fanylion o'r daith ewch i wefan Bara Caws –
www.theatrabaracaws.com neu ffoniwch
Linda/Mari 01286 676335.

Tocynnau : Swyddfa Docynnau Pontio – 01248 382828

SIOPAU DYFFRYN OGWEN
(TUA 1956 – 2000) – Rhan 1

Rhestr wedi ei pharatoi gan David (Dafydd) Elwyn Pritchard, Rhes Elfed, Bethesda.

Dyma'r rhai mae Dafydd yn eu cofio. Oes yna rai mae o wedi eu anghofio? Rhowch wybod.

Mae'r rhestr gyntaf hon yn mynd a ni o Gapel Bethania hyd at waelod Allt Penybryn, gan gadw at yr ochr chwith.

Rhes Penrhyn

Siop Weldio
Caffi Mrs. Williams, Gwynfryn
Siop Groser Dulcie Wyn
Siop Meic Tan-lan
Glyn Tŷ'n y Maes
Radio House – Tomi Jones
Fferyllfa – Morris Chemist
Siop Eiyrmonger – Gruff Jones
Siop Bapur – Vic Ashworth

Castle House – T.H. a Mary Davies, Purple Motors
Yr Aelwyd a Caffi Preis

Rhes Victoria

Siop Hen Bethau – Roy Ostle
Llyfrgell
Garej Ken Hughes
Tŷ Doctor
Siop Rose
Siop Cigydd – Ashton Price Davies a Bobi Bwtsiar
Dr. Emyr
Siop Sera
Dwy Siop Fara Treflan
Siop Da-da Neis; Fferyllfa Emrys Davies; Siop Bysgod Wil...; Llên Ogwen.
Siop Groser - Wili Edwin Jones
Kingswood Café
Caffi Coed y Brenin
Siop Gwen

Stryd Fawr

Siop Ifor Jones Lôn Pab
Siop Groser - Lodwick Roberts
Siop Eiyrmonger – Eiddig Hughes
Siop Ddillad – Lee; Albert Eifion;
Buckley Wyn; Siop Dafydd McCarter
Springford House
Siop Fara – Tomi Tomos
Siop Groser Ty Mawr – Meic ac Amy Jones
Siop Crydd – Cyril Parry
Siop Cigydd – W. T. Parry
Swyddfa'r Post
Siop Bapur – J. Ff.... E. R. Hughes
Siop Sgod a Sglod – Sam Jones
Siop Trwsio Radio
Siop Eiyrmonger – W. T. Lewis
Siop Hir Dywyll (Dillad) – Mrs. Roberts (mam Alma)
Penrhyn House
Abbey National
Siop Hetiau – Miss. Howarth (gynt)
Siop Tanygraig
Siop Dda-da – Mrs. Mary Price.
(i'w barhau)

sioe ffasiynau | 
so chic



clwb criced a bowlio bethesda
nos wener 17 ebrill 2015
sioe yn cychwyn am 7.00pm
£5.00 wrth y drws, i gynnwys
glasiad o win
elw at: côr y penrhyn

so chic 

Neuadd Goffa
Mynydd Llandegai

Dosbarth Zumba

Pob Nos Fercher
6.00 tan 7.00.

Os am gynnal bore coffi neu
ddigwyddiad arall yn Neuadd
Ogwen cysylltwch gyda
Dilwyn Llwyd
drwy e-bost
post@neuaddogwen.com neu
drwy ymweld â'r neuadd i drafod.

OGWEN

Nos Sadwrn, 21 Mawrth
am 7.00 o'r gloch

Cyngerdd
Elusennol

yn Neuadd Ogwen

er budd Cymdeithas
Multiple Sclerosis
Cangen Gwynedd a Môn

Côr MS 'AMaSing'
Côr Meibion y Penrhyn
Kate Griffiths (Soprano)
Kathy Hampson (soddgrwth)

Tocynnau ar gael yn
Siop Partneriaeth Ogwen am
£8.00

Apêl Eleanor Jones

Clwb Criced a Bowlio Bethesda

Wynne Roberts

Caneuon Elvis

Dyf Roberts

Tipyn o Swing



Nos Sadwrn

18 Ebrill
7.30pm

yn cynnwys
Soch Rhost



Tocynnau

Eleanor Jones: 01248 602130
Linda: 01248 601526
Ann: 01248 601583
Joe: 01248 601902

Fel rhan o'r gyfres Pontio ar y Lôn, mae Theatr Peut-être yn cyflwyno:

Shh... Bang!

Perfformiad dawns-theatr i blant a'u hoedolion, sy'n archwilio tawelwch a sŵn
mewn modd chwareus yw hwn.

Mae "Tawel" yn byw mewn byd distaw o gymylau a meddalwch. Y drws nesaf mae
"Swnllyd" yn casglu mwy a mwy o synau a synau gwyllt. Mewn droriau a chesys mae
boings, sblashis, clepiau a swsial. Sut ar wyneb y ddaear all "Tawel" ac "Swnllyd"
ddod o hyd i ffordd i wrando ar ei gilydd? Mae Theatr Peut-être yn creu gwaith
rhyngweithiol i gynulleidfaoedd ifanc gan ddefnyddio elfennau gweledol cryf, symudiad
corfforol a cherddoriaeth.

Neuadd Ogwen, Bethesda, Dydd Sadwrn, Ebrill 25. 11am
£5 / £3 gostyngiadau, Yn addas i rai 3 oed a hyn

Croesair Mawrth 2015

AR DRAWS

- 7 Claeaf (6)
- 8 Ia, rŵan, rhaid dangos y ffordd i’r criw (6)
- 9 Pentref enwog i’r de o’r Wyddgrug (8,2,3)
- 10 Cymar cerddorol Hywel (7)
- 12 Bu unwaith yn gartref i L.A. a’i defnyddiau enwog (5)
- 14 Bwrw iddi o ddifri (5)
- 16 Llond y twb o ddillad a dŵr a sebon erstalwm (7)
- 19 Rhain sy’n galw’r saint i’r llan (6,7)
- 21 Math o ganu torfol (6)
- 22 Un sy’n codi a chau bylchau cloddiau cerrig (6)

I LAWR

- 1 Mae un da yn y Beibl, ac un yn Aberdyfi hyd yn oed (6)
- 2 Atalnod a allai eich gwneud yn anymwybodol efallai (4)
- 3 Yr un ym Mhentre Ifan yw’r fwyaf yng Nghymru meddir (7)
- 4 Sir yn Lloegr (5)
- 5 Mae ar bared bwthyn y bardd yng Nghwm Pennant (8)
- 6 Yn farddonol, enw’r ferch sy’n lân a theg (6)
- 11 Sut i dderbyn rhodd neu gymwynas (8)
- 13 Offeryn cerdd, chwaer fawr y ffidil (7)
- 15 Mwythau (6)
- 17 Os naws dda sydd iddo medrir gweld ei gyflwr a’i werth (6)
- 18 Man i fynd o’r golwg (5)
- 20 Llefain (4)

ATEBION CROESAIR CHWEFROR 2015

AR DRAWS 1 Gweigion, 5 Ebill, 8 Efallai, 9 Tiwn, 10 Bar, 12 Iach, 13 Pwyllgor, 15 Dim, 17 Dinlle, 18 Glo, 19 Arswydo, 20 Rio, 22 Sws, 24 Ni ad, 25 Ychydig, 27 Ufudd, 28 Casgliad

I LAWR 1 Glôb, 2 Eleri, 3 Gwarchodwyr, 4 Offa, 6 Briwigig, 7 Llenorion, 11 Cysegredig, 13 Pwnio, 14 Adrannau, 16 Masnachu, 21 Osgoi, 23, Seld, 26 Chwa

Yr unig wallau y tro hwn oedd ‘Gweb’ yn lle ‘Glôb’ a chafwyd dau yn cynnig ‘Adfarnau’ yn lle’r ateb cywir ‘Adrannau’. Dyma’r rhai lwyddodd i gyflawni’r dasg yn gywir : Gareth William Jones, Bow Street; Dilys A. Pritchard Jones, Abererch; Gwilym D. Evans, Niwbwrch; Karen Williams, Elfed Evans, Llanllechid; Gaynor Elis-Williams, Carneddi; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Doris Shaw, Bangor; Dulcie Roberts, Sara a Gareth Oliver, Elizabeth Buckley, Rosemary Williams, Tregarth; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Dilys Parry, Jean Vaughan Jones, Derek a Mai Jones, Rhiwlas; Dafydd Evans, Penisarwaun; Rita Bullock, Bethesda. Ond yr un sy’n cipio’r wobr y mis yma yw Myfanwy Jones, Tan Rhiw, Stryd Hiraef, Gaerwen, Ynys Môn LL60 6BL. Llongyfarchiadau mawr.

	1		2		3		4		5		6	
7							8					
9												
10			11					12				
							13					
14	15					16					17	
					18							
19								20				
21						22						

Atebion erbyn 3 Mawrth i ‘Croesair Mawrth’, Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda. LL57 3PD

Enw:

Cyfeiriad:

CHWILAIR CHWEFROR 2015

Llefydd yn Sir Fôn

A	A	W	F	H	R	I	E	J	L	C	M	B	V	B	H	X	J	U	I
S	V	D	I	A	I	N	O	H	R	L	E	O	M	Y	S	Y	N	Y	S
M	A	R	I	A	N	G	L	A	S	D	W	Y	R	A	N	H	E	I	M
G	V	H	M	D	W	H	U	L	A	B	E	R	F	F	R	A	W	Z	M
X	C	A	E	R	G	E	I	L	I	O	G	V	A	D	D	N	A	H	P
A	U	Q	U	S	O	F	R	A	P	Y	Q	Z	G	R	H	C	U	C	M
N	W	N	O	Y	R	I	A	N	S	Z	U	T	F	D	X	U	B	R	P
Y	W	R	H	C	Q	H	W	B	E	H	O	Y	E	E	G	A	E	I	O
C	M	H	E	D	P	T	T	E	C	B	B	C	U	U	F	J	P	E	L
N	T	M	I	Y	V	V	D	D	C	B	B	F	R	L	F	O	G	M	J
E	V	I	I	R	R	R	X	R	I	M	H	T	E	T	O	S	K	S	O
I	P	W	R	W	C	M	K	G	C	B	O	I	R	C	X	V	R	O	Y
S	H	S	T	E	M	R	E	O	F	Y	N	J	D	Z	H	B	C	H	W
N	O	S	C	D	R	A	I	C	X	A	N	I	L	X	J	J	M	R	B
Y	W	T	E	O	X	M	D	H	D	X	K	F	U	P	C	Q	Y	O	I
R	L	F	E	B	R	Z	Q	D	R	O	C	T	D	G	W	S	L	Z	E
B	L	L	W	B	U	E	N	N	Y	R	I	A	F	N	A	L	L	B	E
A	J	K	J	C	L	A	N	L	R	V	O	G	J	P	W	P	G	S	O
W	J	J	Q	U	L	P	O	R	T	H	A	E	T	H	W	Y	L	F	S
V	T	X	E	L	U	G	H	S	L	Z	E	A	F	X	I	W	T	Z	H

Yn y chwilair mis yma mae enw deuddeg lle yn Sir Fôn. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddog o hyd i’r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn un llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn Ebrill 1af.

Bydd gwobr o £10 i’r enw cyntaf allan o’r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna’r rhif agosaf fydd yn cael y wobr.

Nifer fawr wedi cael trafferth dod o hyd i enw’r blodyn Alyswm Pêr yn chwilair Chwefror. Gobeithio cewch well hwyl gyda enwau llefydd Sir Fôn.

Dyma atebion Chwefror. Alyswm Pêr (Sweet Alison): Baf Hen Ŵr (traveller’s Joy): Blodyn Ymenyn (Meadow Buttercup): Capan Cornicyll (Nasturtium): Grug Mêl (Heather): Lafant (Lavender): Lili Wen Fach (Snowdrop): Llygad y Dydd (Daisy): Mari Waedlyd (Love-lies-bleeding): Pabi Cymreig (Welsh Poppy): Rhosyn y Mynydd (Peony).

Dyma enwau’r rhai a gafodd yr atebion cywir:- Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Gareth a Sara Oliver, Tregarth; Dilys A Pritchard-Jones, Abererch; Myfanwy Jones, Gaerwen; Marilyn Jones, Bethesda; Merfyn a Laura Jones, Halfway Bridge, Bangor; Mair Jones, Bethesda; Elizabeth Buckley, Tregarth; Elfed Bullock, Maes y Garnedd; Doris Shaw, Llwyn Hudol, Bangor.

Enillydd Chwefror oedd:- Elizabeth Buckley, 32 Maes Ogwen, Tregarth, Bangor. LL57 4NG.

GAIR O'R DOSBARTH

Ysgol Dyffryn Ogwen

Cystadleuaeth Ddringo



Daeth criw o ddisgyblion yr ysgol yn drydydd drwy Wynedd mewn cystadleuaeth ddringo yng Nghanolfan y Beacon yn ddiweddar. Llongyfarchiadau mawr!

Diwrnod y Llyfr



Fel rhan o ddatliadau Diwrnod y Llyfr cafodd criw o ddisgyblion blwyddyn 8 sy'n rhan o 'Gynllun Darllen yr Uwch Gynghrair' y cyfle i fynd i Lyfrgell Bethesda er mwyn gweld pa adnoddau sydd ar gael yno. Roedd y disgyblion yn ddiolchgar o'r cyfle a chafodd pob un ohonynt gerdyn aelodaeth Lyfrgell er mwyn manteisio ar yr adnodd gwerthfawr hwn yn ein cymuned.

Dosbarthwyd tocynnau Diwrnod y Llyfr i bob disgybl yn Ysgol Dyffryn Ogwen a gobeithiwn y bydd y disgyblion yn manteisio ac yn prynu llyfr gwerth ei ddarllen. Diolchwn am gefnogaeth rhieni sy'n annog eu plant i ddod yn ddarllenwyr brwd.

Bwletin Newyddion y BBC

Mae criw o ddisgyblion blwyddyn 9 unwaith eto eleni yn creu bwletin newyddion ar gyfer y BBC. Cafodd y criw gyfle i weithio gyda'r gohebydd Nia Thomas gan baratoi eitem ar weithgareddau awyr agored yn yr ardal. Gobeithir y bydd yr eitem yn cael ei darlledu ar Post Prynhawn ar Fawrth 19eg.

Rygbi

Llongyfarchiadau i Iago Davies ar chwarae i dîm dan 16 RGC (Rygbi Gogledd Cymru), hefyd i Tomos Gwyn Jones, Shaun Thomas, Kieran Briggs, Mathew Buchanan a Cai Griffiths am chwarae i ranbarth gorllewin RGC dan 15. Da iawn hogia!

Tîm Rygbi dan 14

Mae Ysgol Dyffryn Ogwen wedi cyrraedd yr 16 olaf trwy Gymru yn ddiweddar gan ennill bob gêm yn erbyn timau Gwynedd a Powys. Chwaraewyd yn erbyn Ysgol Brynteg o ardal Penybont, ysgol hefo bron i ddwy fil o ddisgyblion a rhai o'i chyn-ddisgyblion yw Gerald Davies, J P R Williams a Gavin Henson. Yn anffodus colli fu eu hanes yn y gêm ond rhoddwyd ymdrech lew gan y tîm i gyd.

Gemau

Dyma ganlyniadau gemau rygbi a chwaraewyd ar gaeau Dôl Ddafydd ar y 4ydd o Fawrth -

Tîm dan 13

YDO 50 - 5 Ysgol Dyffryn Nantlle

Tîm dan 15

YDO 32 - 0 Ysgol Dyffryn Nantlle

Tîm genethod dan 14

YDO 25 - 5 Ysgol Dyffryn Nantlle

Ysgol Bodfeurig

Dydd Gŵyl Ddewi

Braf oedd gweld yr ysgol yn llawn lliw ar ddydd Gŵyl Ddewi. Daeth llawer o blant i'r ysgol mewn dillad traddodiadol a chrysau rygbi, ac mae'n bosib ein bod wedi gweld ambell i ddraig!



Dyma rai o blant yr ysgol yn eu gwisgoedd

Eisteddfod yr Urdd

Llongyfarchiadau mawr i blant yr ysgol fu'n brysur yn cystadlu yn Eisteddfod cylch yr Urdd. Daethant a chlod enfawr i'r ysgol wrth wneud eu gorau glas ac roedd pawb wedi gwirioni pan ddaeth Lilly yn drydydd yn yr unawd chwythbrennau a'r parti canu hefyd yn dod yn drydydd. Da iawn chi! Diolch hefyd i Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol ac Ysgol Tregarth a fu mor brysur yn y gegin ar y diwrnod yn codi arian ar gyfer yr ysgol.

Ymweliad ag Amgueddfa Lloyd George, Llanystumdwy



Fel rhan o'u gwaith ar Oes Fictoria fe aeth dosbarth Tryfan yr holl ffordd i Lanystumdwy i dreulio'r dydd mewn ysgol Oes Fictoria! Cafodd pawb amser gwych yn dysgu mwy am fywyd y cyfnod hwn yn yr ysgol ac yn y cartref. Roedd pawb wedi synnu mor anodd oedd bywyd bryd hynny i blant – tipyn gwahanol i fywyd heddiw!

Ysgol Abercaseg

Dathlu Blwyddyn Newydd Tsieinaidd.



Cafodd plant yr ysgol ddiwrnod i'w gofio wrth dathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieinaidd. Bu cyfle i bawb wisgo fel plant bach o Tsieina a chael profiad o flas bwyd blasus Tsieinaidd. Daeth pawb â nifer o bethau diddorol yn ymwneud â Tsieina a chrëwyd arddangosfa gwerth chweil ohonynt. Cafodd y Dosbarth Derbyn barseil annisgwyl o Tsieina gan Menna Chan sef cyn ddisgybl y dosbarth sydd ar y funud yn byw yng Hong Kong. Cafodd pob un o'r plant amlenni coch ac anrheg fach ynddo. Diolch i Menna ac edrychwn ymlaen i'w gweld yn ôl yng Nghymru ym mis Awst

Donna Direidi.

Pwy yw eich arwr chi? Dyna'r cwestiwn a ofynnwyd i Flwyddyn 2 yr ysgol fel rhan o weithgaredd i gyflawni'r wobwr aur y Siarter Iaith .Gwnaethpwyd rhestr o'u hoff arwyr a chynnal pleidlais . Yr un a ddaeth i'r brig oedd Donna Direidi. Aeth y plant ati i e-bostio Donna a'i gwadd i'r ysgol i greu rap o'u hoff hwiangerdd ynghyd a gofyn ambell i gwestiwn! Diolch am ddod Donna roedd pawb wedi mwynhau yn arw!

Dydd Gŵyl Dewi Sant.

Roedd golygfa liwgar iawn o blant yn dod i'r ysgol ar yr ail o Fawrth Gwelwyd môr o Gennin Pedr, baneri Cymru, crysau rygbi a dillad



Cymreig. Fe ddathlwyd y dydd drwy ambell weithgaredd fel coginio cacennau bach a'u haddurno yn y Dosbarth Derbyn, creu baneri a Chennin Pedr ynghyd ag ymweliad Donna Direidi. Diwrnod i'w gofio!

Diwrnod y llyfr

Dathlwyd diwrnod y llyfr eto eleni gwelsom lawer o blant wedi gwisgo fel eu hoff gymeriadau yn eu hoff lyfrau. Cafodd pawb docyn i brynu llyfr.

Bore Coffi

Diolch i bawb a aeth i'r bore Coffi yn Neuadd Ogwen. Diolch i gyfeillion yr ysgol am drefnu'r bore.

Eisteddfod yr Urdd

Llongyfarchiadau i Iago Blwyddyn 2 am ddod yn drydydd yn Eisteddfod Cylch yr Urdd yng nghystadlaeth Llefaru. Da iawn ti!

Ysgol Pen-y-bryn

Eisteddfod Gylch yr Urdd

Cafwyd diwrnod hynod lwyddiannus yn Eisteddfod Gylch yr Urdd ar Fawrth 28ain. Llongyfarchiadau mawr iawn i'r parti llefaru, y côr a'r parti deulais am ddod yn gyntaf a llongyfarchiadau i'r ymgom am ddod yn ail. Cafodd Luned Roberts o flwyddyn 6 gyntaf gyda'r fflwiwt a thrydydd gyda'r corn - da iawn ti. Cafodd Martha Jones o flwyddyn 4 gyntaf gyda'r llefaru - roeddet yn wych! Llongyfarchiadau hefyd i Evan

Ward, Jack Hughes, Rhiannon Roberts, Tara Stephen, Annest Bryn a Grace Wynne am gystadlu ac i'r ensemble am eu perfformiad arbennig. Pob lwc i chi yn yr Eisteddfod Sir!

Diwrnod Golchi



Ar Ddydd Mercher Chwefror y 4ydd aeth dosbarth Tryfan i'r Amgueddfa Lechi yn Llanberis i ddysgu am ddiwrnod golchi yn Oes Victoria. Roedd Anti Marged yn brysyr iawn yn ei chartref yn golchi dillad pobl y pentref er mwyn cael arian i fwydo ei theulu - lwcus ein bod wedi mynd i'w helpu! Cawsom y profiad o olchi'r dillad gyda doli yn y twb golchi, sgwrio'r dillad budr iawn yn y sinc ar y bwrdd sgwrio, ac yna rhoi'r dillad trwy'r mangl i wasgu dŵr allan ohonynt cyn eu rhoi ar y lein i sychu. Rydan ni i gyd yn cytuno bod merched wedi gweithio'n galed iawn ar ddiwrnod golchi yn Oes Victoria.



Bu'r plant yn dathlu Dydd Gŵyl Ddewi trwy wisgo eu dillad Cymreig a choginio cawl cennin. Dyma nhw yn mwynhau'r cawl wedi bod wrthi drwy'r bore yn ei baratoi:



Ysgol Llanllechid

Dawnsio Disgo

Llongyfarchiadau i'r Grŵp Dawnsio Disgo ar ddod yn ail yn y Steddfod Symudol a diolch o galon i Ms Nicola a Ms Sara am eu hyfforddi.

Antur Awyr Agored

A ninnau’n astudio’r Ail Ryfel Byd, doedd dim modd gwell i werthfawrogi dycnwch ein milwyr Cymreig na mentro i Blas Menai ar ddechrau Mis Mawrth am gyffro ar y dŵr. Bu Bl6 yn fentrus a deheuig iawn wrth rwyfo’u canwiau yn erbyn llif y Fenai gyda gwynt yn chwipio’r tonnau i gyfeiriad arall. Cafwyd canmoliaeth uchel o ddewrder a brwdfrydedd y disgyblion gan yr hyfforddwr ac ategwyd hynny gan ddiolchiadau twymgalon y disgyblion.

Galeri Llanllechid

Bu’n anrhydedd cael agor galeri o waith Bl6 yn Ysgol Llanllechid, wrth i deuluoedd a’r gymuned fentro draw i edmygu’r gwaith ac yn wir i greu campweithiau eu hunain. Ysbrydolwyd y disgyblion gan artistiaid lu o Gymru a thramor ac roedd eu gwaith yn ddigon o ryfeddod, gan gynnwys lanteri Tsieineaidd a baentiwyd i ddathlu Blwyddyn Newydd y Ddafad. I gyd-fynd â’r Galeri cynhaliwyd Caffi Masnach Deg ac roedd y ffrwythau, gyda’r labeli arbennig, yn flasus dros ben.

Anwen Burgess

Bendithiwyd Ysgol Llanllechid gan rieni talentog iawn ac yn eu plith yr artist Anwen Burgess a ddaeth i rannu ei doniau gyda Bl6. Roedd y disgyblion wedi gwefreiddio wrth wylïo a gwrando, gan ddotio at eu llwyddiant yn portreadu, ar ôl yr arweiniad a gawsant ganddi. Diolch yn fawr i Anwen Burgess ar ran y dosbarth i gyd.

Hanes Rachub ers Talwm

Wel, dyna sbort a gawsom yng nghwmni Mrs Helen Williams, Mrs Gwenda Jones a Mrs Vera Parry. Pleser pur oedd gwrando arnynt yn dwyn i gof eu hen atgofion am y fro. Cawsom fwyniant pur yn eu cwmni, a dysgu pob math o bethau, gan gynnwys sut i ddawnsio’r foxtrot a’r waltz! Diolch i Mrs Marian Jones am drefnu, ac i Mrs Wendy Jones a Ms Leanne am ddarparu’r baned orau erioed ar ddiwedd y prynhawn!

Taith o amgylch Rachub

Cafodd Dosbarth Blwyddyn 3 fynd ar daith gyda Mrs Bethan Jones o gwmpas y pentref a chael eu tywys gan Mrs Helen Williams sy’n gwybod am bob tŵll a chornel yn Rachub. Roedd Mrs Williams yn gallu dangos i’r plant ble roedd siop Madam Chips a neuadd John ‘P’ lle roedd llawer o bobol yn mynd i ddawnsio a chael bentyca gwisgoedd ar gyfer actio mewn dramâu. Diolch i Mrs Williams am yr holl wybodaeth am hanes Rachub! Mae’n plant ni wedi cael cyfoeth yn eich cwmni.



Dydd Gŵyl Ddewi

Cafwyd gwledd o liwiau gwyrdd, coch a gwyn yn neuadd ein hysgol ar ddechrau Mawrth pan gafodd pob un o’n disgyblion y cyfle i gymryd rhan yn eon cyflwyniadau Gŵyl Ddewi. Roedd pob copa walltog ar ei orau, a sain ystod eang o farddoniaeth yn cael ei adrodd ar gof gan bob dosbarth yn ei dro, megis Y Llwynog gan R. Williams Parry, Yr Wylan Fach Adnebydd, a Hon gan T. H. Parry-Williams. Cawsom Wyl Ddewi i’w chofio a diolchaf i’r holl blant am roi o’u gorau; i chi rieni am fod mor barod i’w cefnogi ac i’r holl staff am eu gwaith caled, a diolch i Mr Huw Edward Jones am ei waith diflino yn cyfeilio i’r cyfan oll.

Eisteddfod Cylch yr Urdd

Diolch o galon i’r holl blant, staff a rhieni am fod mor barod i ddod i Eisteddfod yr Urdd. Unwaith eto, daeth ein disgyblion a chlod aruthrol i’r ysgol a llongyfarchwn bob un ohonynt - boed eu perfformiad yn y rhagbrofion neu ar y llwyfan. Da iawn chi blantos! Diolch yn fawr iawn hefyd i bawb a’u hyfforddodd i safon mor uchel a diolch i Ysgol Tregarth am eu gwaith da yn trefnu’r cyfan.

Unawd Bl 2 ac iau

3ydd: Mari Watcyn Roberts

Unawd Bl 3 a 4

1af: Efa Glain Jones

3ydd: Erin Griffiths

Parti Unsain Bl 6 ac iau

1af: Parti Ellie

Côr Bl 6 ac iau

2ail: Côr Aron Bale

Unawd Llinynnol Bl 6 ac iau

2ail : Begw Evans

3ydd: Abigail Greenough

Unawd Pres Bl 6 ac iau

2il: Cerys Elen

Ensemble Offerynnol Bl 6 ac iau

3ydd: Parti Mari Fflur

Cerddorfa/Band Bl 6 ac iau

1af: Parti Ellie

Unawd Cerdd Dant Bl 3 a 4

1af: Efa Glain Jones

Llefaru Unigol Bl 2 ac iau

2ail: Seren Roberts

Llefaru Unigol Bl 3 a 4

3ydd: Madeleine Sinfield

Ymgom Bl 6 ac iau

1af: Parti Begw Angharad

Canlyniadau Celf a Chrefft yr Urdd:

Gwaith Lluniadu

2D Bl.2 ac iau

2il: Leusa Morris

3ydd: Hanna Pierce Jones

Gwaith Creadigol

2D Bl 3 a 4

3ydd: Elsie Owen

Gwaith Creadigol

2D Bl 5 a 6

2il: Ithel Temple Morris

Gwaith Creadigol

3D BL. 3 a 4

2il : Idris Temple Morris

Gwaith Creadigol 3D

Bl 6 ac iau A.A

1af : Ithel Temple Morris

Argraffu Bl 3 a 4

3ydd – Elan Rees

Graffeg Cyfrifadurol

Bl 2 ac iau

3ydd: Ffion Tipton

Argraffu/ Addurno

ar fabrig 5/6/

3ydd: Idwal Temple Morris

Argraffu/ Addurno

ar ffabrig Bl 3 a 4

1af: Idris Temple Morris

Gwaith Creadigol 3D

Tecstilau Bl 5 a 6

1af:Efa Lois Burgess

Print Monocrom BL 2 ac iau

1af: Joe Pole

Print Lliw Bl 2 ac iau

1af : Leusa Morris

Cyfres o brintiau lliw

Bl 2 ac iau

1af – Joe Pole

Gemwaith Bl 3 a 4

2il – Idris Temple Morris

Gemwaith Bl 5 a 6

3ydd – Ithel Temple Morris

Ysgol Llandygái

Dathlu Wythnos Cŵl Cymru

Rydym wedi bod yn mwynhau wythnos llawn egni a bwrlwm wrth ddathlu ein Cymreictod yn ystod Wythnos Cŵl Cymru.

Ddydd Llun cawsom gyflwyniad yn ein hatgoffa o’r rhesymau pam y dylem fod yn falch o fod yn Gymry, cyn cloi drwy ganu'r Anthem Genedlaethol. Yna yn ystod y dydd bu pob dosbarth yn canolbwyntio ar un arlunydd/crefftwr o Gymru - yn efelychu'r gwaith ac yn dysgu mwy am arddull yr unigolion.

Ddydd Mawrth bu Dosbarthiadau'r Cyfnod Sylfaen yn canolbwyntio ar ddysgu ac astudio Alawon Gwerin a Hwiangerddi Cymru a’r Adran Iau yn creu rapiau am Gymru a hefyd yn cyd-weithio mewn grwpiau bychain yn meimio i ganeuon Cymraeg. Yn ystod y prynhawn cawsom berfformiad cofiadwy gan Gwilym Bowen Rhys a Gethin Griffiths yn canu alawon gwerin Cymreig traddodiadol.

Ddydd Mercher daeth Mari Gwilym i ddarllen chwedlau Cymru megis Taliesin, Cylch y Tylwyth Teg, Clustiau March y Brenin, Morwyn Llyn y Fan a Phriodas Nant Gwrtheyrn. Roedd y disgyblion wrth eu boddau yn gwrando arni yn eu hadrodd yn ei ffordd unigryw ei hun.

Gweithgareddau trawsgwricwlaidd yn ymwneud â Chymru a Chymreictod oedd i’w gweld ymhob dosbarth yn ystod Dydd Iau. Gweithgareddau astudio mapiau, dysgu am hanes Cymru a hefyd tasgau mathemategol yn ymwneud â materion Cymreig. I gloi wythnos ardderchog cafwyd Dawnsio Gwerin a Dawnsio Disgo. Llongyfarchiadau i Samuel Valentine a enillodd y wobr am wisg ffansi ‘Arwr Cymreig’ gorau. Daeth Samuel i’r ysgol wedi gwisgo fel Tom Jones.

Jambori Siarter Iaith Ysgolion Bangor

Aeth disgyblion Blwyddyn 3 a 6 i Brifysgol Bangor yn ddiweddar i ddathlu yn enw Siarter Iaith Gwynedd gyda disgyblion eraill ysgolion Bangor. Dyma oedd cyfle i ganu, dawnsio, actio a chymdeithasu yng nghwmni ffrindiau ac enwogion fel Elin Fflur, Ynyr Llwyd a’r pypedwr Owen Glynne Davies o Gwmni Cortyn. Cafodd cannoedd o falwnau eu rhyddhau ar ddiwedd y diwrnod fel arwydd fod yr iaith Gymraeg yn fyw ac yn lledaenu. Cafodd pawb gyfle i gyd-ganu Anthem y Siarter a gyfansoddwyd gan Mr Elfed Morgan Morris ein

Dirprwy. Bellach mae holl ddisgyblion yr ysgol wedi dysgu'r Anthem ac mae i'w chlywed ar hyd rhodfeydd a buarth Ysgol Llandygái !!

Cyngerdd Gŵyl Ddewi

Cafodd trigolion pentrefi Llandygái a Thalybont eu gweodd i gyngerdd yn neuadd yr ysgol Ddydd Iau Chwefror 27ain o Fawrth i ddathlu Gŵyl Ddewi. Cafwyd darlenniadau gan ddisgyblion Blwyddyn 2 a chaneuon gan yr holl ddisgyblion. Roedd paned a chacen gri a bara brith ar gael i bawb a diolch i Anti Carol a chriw'r gegin am eu cymorth parod.

Croeso

Roedd hi yn braf cael croesawu criw o ddisgyblion Ysgol y Faenol atom yn ddiweddar. Bu'r Cyngor Ysgol yn trafod ac yn rhannu syniadau sut i fynd ati i ymgynraedd at ofynion Siarter Iaith Gwynedd. Mae hi yn braf cael cydweithio a rhannu arferion da - mewn undod mae nerth !!!

Eisteddfod Cylch Yr Urdd

Llongyfarchiadau i holl ddisgyblion yr ysgol fu'n cystadlu yn yr Eisteddfod Cylch yn Ysgol Dyffryn Ogwen eleni. Roedd eich ymddygiad yn ardderchog ac roeddem yn hynod o falch o'ch perfformiadau. Diolch i bawb ddaeth i helpu a chefnogi ar y diwrnod.

Diwrnod y Llyfr 2015

Daeth Angharad Tomos atom i ddathlu Diwrnod y Llyfr. Bu disgyblion y Cyfnod Sylfaen a Blwyddyn 5 yn hynod o lwcus o gael gwrando arni yn darllen stori ac yna cymryd rhan mewn gweithdy llafar.

Ysgol Tregarth

Mari Gwilym

Pleser mawr oedd cael awdures adnabyddus i'n hysgol, sef Mari Gwilym, i gynnal sesiwn stori gyda phlant blwyddyn 1 a 2. Roedd y plant wrth eu bodd yn gwrando a chymryd rhan mewn storïau bywiog a byrlymus yng nghwmni Mari. Yn dilyn ei hymweliad mae'r plant wedi cael eu hysbrydoli i greu straeon creadigol a difyr. Diolch yn fawr i chi Mari!

Mewn Cymeriad

Cafodd dosbarthiadau Ogwen, Ffrydlas a Thryfan wledd pan ddaeth cwmni 'Mewn Cymeriad' i ymweld â'r ysgol eto, y tro hwn gyda chymeriad William Jones - Mordaith y Mimosa, gyda Martin Thomas. Cafodd y plant fodd i fyw yn chwarae rolau amrywiol a dathlu 150 o flynyddoedd ers i'r Mimosa hwylio o ddociau Lerpwl am Batagonia. Sioe fywiog a diddorol a roddodd bleser mawr i'r plant.

Eisteddfod Cylch yr Urdd

Cafwyd diwrnod llwyddiannus iawn yn yr eisteddfod cylch yn Ysgol Dyffryn Ogwen Ddydd Sadwrn, Chwefror 28ain gyda phawb yn cael hwyl ar y cystadlu. Llongyfarchiadau i Gwilym Gray a ddaeth yn 3ydd ar yr unawd piano, Esther Parry a ddaeth yn 3ydd ar y cerdd dant i flwyddyn 2 ac iau a'r band a ddaeth yn 3ydd yn eu cystadleuaeth hwy. Diolch yn fawr iawn i bawb a fu mor brysur yn eu hyfforddi. Diolch hefyd i'r rhieni a fu'n brysur yn paratoi cacennau i'w gwerthu yn y caffi ac i'r holl staff a'r rhieni a fu'n cynorthwyo mewn amrywiol ffyrdd yn ystod y dydd. Rydym yn ddiolchgar iawn am eich cymorth a'ch cefnogaeth.

Y BWTHYN TÉ
pen y ceunant isaf
LLWYBR YR WYDDFA LLANBERIS



PEN Y CEUNANT ISAF-
BWTHYN A ADEILADWYD AR
WAELODION LLWYBR YR WYDDFA
(O LLANBERIS)
YN YSTOD Y 18ed. GANRIF
CEWCH GROESO ARBENNIG
YMA, YN OGYSTAL A
GOLYGFYDD GWYCH DROS
LLYN PADARN A DYFFRYN PERIS


AR AGOR 9am.- 9pm. BOB DYDD DRWY'R FLWYDDYN
DIOODYDD GYDA SCON NEU DEISEN (Dim prydiau o gwbwl)
MAN PARCIO O FLAEN Y BWTHYN • YN ADDAS I'R ANABL

Oriel arbennig o luniau Syr Kyffin Williams
a llu o arlunwyr Cymreig eraill

(01286)872606 www.ceunant.co.uk
steven@ceunant.co.uk

CYMDEITHAS HANES
DYFFRYN OGWEN

Y cerddor adnabyddus o'r Waen Wen, James Griffiths, oedd y siaradwr gwadd ar 9 Chwefror yn Ffestri Jerusalem. Cafwyd noson ddiddorol iawn yn ei gwmni wrth iddo sôn am ei "Gysylltiadau Cerddorol" ar draws y byd, yn ogystal â chwarae esiamplau o gerddoriaeth o bob math.



Yn y llun gwelir ef yng nghwmni llywydd y noson, y Dr. Dafydd Roberts.

Sialens y Weiren Wib

Yn ddiweddar trefnodd Iain Buchanan, Bryn Caseg, sialens y Weiren Wib i godi arian er budd Apêl Eleanor Jones. Ddydd Sadwrn, 21 Chwefror, aeth Iain, ynghyd â Gareth Wyn, mab Eleanor, ac 11 o wirfoddolwyr eraill, sef Dafydd Gwyn Thomas, Gwion Owen, Meirion Williams, Ifan Aled Jones, Iwan Morris, Dylan Price Jones, Iwan Rowlands, Trevor Moore, Tony Parry, Anwen Japheth, a Helen Wyn Hughes ar y wifren. Trwy eu hymdrech codwyd swm sylweddol iawn o arian tuag at yr Apêl. Diolch o galon i chi i gyd am wneud ymdrech mor ganmoladwy i gefnogi'r Apêl, a diolch arbennig iawn i Iain am drefnu'r cyfan.

Hoffai'r Pwyllgor, hefyd, ddiolch i Ann a Glyn, Tafarn y Bull, am adael iddynt gael defnyddio'r Bull i gael lluniaeth wedi'r antur ar y weiren, a diolch i Ann a Gill am goginio bwyd blasus. Diolch i Carlton Bakeries am roi'r rholiau bara, ac i bawb a gyfrannodd y wyau, cacennau, a bwydydd eraill. Diolch yn fawr iawn i chi i gyd am wneud y digwyddiad yn un mor llwyddiannus, ac am godi cymaint o arian er budd Ward Alaw.



Llun o'r rhai a gymrodd ran yn y Sialens Weiren Wib



Siop Trin Gwallt a Harddwch

Bethesda 600094

Yn arbenigo mewn trin gwallt
merched, dynion a phlant.
Cynghori, gosod a thorri wigiau
Rhai gwasanaethau harddwch a shafio
(rasal "cut throat")

DAFYDD CADWALADR

Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy
losgi coed

01248 605207

Pob math o waith trydanol

Huw Jones

Ymgymwrwr Trydanol

Trydanwr cymwysedig gyda
phrofiad diwydiannol

Y Wern, Gerlan, Bethesda
Gwynedd LL57 3ST
Ffôn: 01248 602480

**STEPHEN
JONES**



**TREFNYDD
ANGLADDAU**

**Hefyd ymgymryd
â gwaith cerrig beddi:
adnewyddu neu o'r newydd**

Gweithdy Pen-y-bryn
Cefn-y-bryn, Bethesda

Ffôn: gweithdy 600455
gartref 602455
personol 07770 265976
Bangor 360001

Gwasanaeth personol ddydd a nos

Y Douglas Arms

* Lluniaeth i Bartïon * Te Cynhebrwng *
* Gardd Gwrw * Te a Choffi *

Oriau Agor

Llun - Gwener: 6.00 - 11.00

Sadwrn: 3.30 - 12.00

Sul: Pnawn 1.00 - 4.00, Hwyr 8.00 - 11.00

01248 600219

www.douglas-arms-bethesda

Cewch groeso cynnes gan
Gwyn a Christine

Gareth Williams Trefnydd Angladdau

**Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda**

Ffôn: (01248) 600763 a 602707

GWASANAETH DYDD A NOS

Oriel Cwm

Cwm y Glo, Caernarfon

Gwasanaeth fframio lluniau o
bob math ar gael ar y safle
Prisiau rhesymol
Arddangosfa gan artistiaid lleol

Ffôn / Ffacs 01286 870882

RICHARD S. HUMPHREYS



CAFFI COED Y BRENIN

1 Rhes Buddug, Bethesda

Ffôn: 01248 602550

karena@agoriad.org.uk

**Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)**

Cinio arbennig bob dydd Iau

Bwyd i'w gario allan

**Gwasanaeth arlwygo ar gyfer
partïon o bob math -
plant, pen-blwydd ac ati
(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)**

**Cacennau ar gyfer pob achlysur
e.e. priodas neu ben-blwydd**

Prisiau rhesymol

BISTRO'R BRENIN (Bwyty Trwyddedig)

Rydym yn croesawu partïon
o bob math - dathlu pen-blwydd
ac achlysuron arbennig eraill.
Beth am eich Parti Nadolig?

Gadewch i

Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi

Londis Bethesda

☎ 01248 605566

Archfarchnad hwylus

Gwasanaeth personol

gyda'r pwyslais ar y cwsmer

Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy

Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr

7 diwrnod yr wythnos

JOHN ROBERTS

Paentiwr

Papurwr

Teilsiw



Symudol: 07747 628650

Ffôn: 01248 600995

C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu

Bethesda 01248 600045

Caernarfon 01286 676070

Llangefni 01248 751677

Cludiant am ddim yn lleol

Stoc helaeth ac amrywiol

Croeso i gyfrifon masnachol

Staff cyfeillgar a phroffesiynol

Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y

Mynytho 01758 730768

LLanrwst 01492 640794

Siop yn 01492 640794

Llanrwst

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni

Ras Mynydd 'Moel y Ci'



Y flwyddyn fwyaf llwyddiannus erioed!
Gyda bron i 170 o redwyr, yn cynnwys nifer o wynebau newydd a thywydd braf, yr oedd hon yn ras i'w chofio.

Math Roberts yn dod yn gyntaf yng nghategori agored y dynion mewn amser o 35.53 (dim ond 43 eiliad yn fyr o'r record) a Katie Beecher oedd y ferch gyntaf yn y categori agored mewn amser o 42.54.

Daeth pedwar o'r rhedwr yn y categori V40 o fewn y deg cyntaf gan ddangos unwaith eto pa mor gryf ydi'r categori oedran yma.

Diolch yn fawr iawn i'r gwirfoddolwyr (marshals) ac i Ganolfan Amgylcheddol Moel y Ci a wnaeth roi eu hamser ar y diwrnod – cofiwch dim marshals dim ras!

Rygbi

Roedd gêm gyntaf Chwefror oddi cartref yn yr Wyddgrug yn un siomedig iawn i Fethesda.

Gyda Chymru yn chwarae yn erbyn Lloegr ar y nos Wener cynt, roedd rhai o'r chwaraewyr i lawr yng Nghaerdydd. Fodd bynnag, cafwyd perfformiad digon taclus ac roedd yr hogia ar y blaen o 19 pwynt i 18 gyda'r gêm yn dirwyn i ben.

Yn anffodus, ildwyd cic gosb o flaen y pyst a llwyddodd y tîm cartref i gipio'r fuddugoliaeth efo cic ola'r gêm.

Y Sadwrn canlynol, Nant Conwy oedd y gwrthwynebwyr ar Ddôl Ddafydd yn rownd gynderfynol Cwpan Gogledd Cymru. Unwaith eto, roedd chwaraewyr wedi mynd i'r Alban i gefnogi Cymru ond roedd yn rhaid chwarae'r gêm ar y dyddiad yma.

Bethesda wnaeth reoli'r hanner cyntaf, ond, yn dyngedfennol, methwyd a throsi pedair cic gosb tra llwyddodd yr ymwelwyr i sgorio trosgais ar ymweliad prin â hanner Bethesda.

Yn yr ail hanner, dangosodd Nant pam eu bod ar frig tabl y gynghrair drwy sgorio 3 chais yn erbyn 1 cais Bethesda ac ennill o 26 pwynt i 5.

Pan ddaeth Rhuthun i Fethesda cafwyd cyfle i dalu'r pwyth yn ôl am y golled agos yn gynharach yn y tymor. Sgoriodd Bethesda 6 chais heb ildio dim un mewn buddugoliaeth o 30 pwynt i 15. Unwaith eto, ni lwyddwyd i drosi'r ceisiau neu buasai'r sgôr wedi bod yn un teilwng iawn.

Oddi cartref yng Nghaernarfon cynhaliwyd gêm ola'r mis a llwyddodd yr How-gets i sgorio 4 cais yn erbyn 2 gan y Cofis. Fodd bynnag, unwaith eto, ildwyd cic gosb o flaen y pyst yn y funud olaf a llwyddodd Caernarfon i gipio'r fuddugoliaeth o 1 pwynt.

Er colli'r gêm, sicrhawyd 2 bwynt bonws sy'n cadw Bethesda yn chweched yn y tabl ac yn debygol iawn o gadw'r tîm yn Adran 1 Gogledd am dymor arall.

Da oedd gweld Rhys Williams a Rhun Morris yn ôl ar y cae yn dilyn llawdriniaethau. Braf hefyd oedd gweld Steven Eames yn sefyll yn y bwlch unwaith eto gan chwarae yn y canol drwy gydol y gêm a rhoi ei gyfan dros y tîm.

Er bod pobol y tywydd wedi addo prynhawn braf a heulog, digon gwyntog ac oer oedd y croeso ar Ddôl Ddafydd i Gaereinion OBRA ar Sadwrn cyntaf mis Mawrth.

Llwyddiant

Llongyfarchiadau mawr i Catherine Roberts, 1 Glanogwen, ar ei llwyddiant diweddar gyda gymnasteg. Derbyniodd Catherine un fedal aur, un fedal arian, ac un fedal pumed safle. Rhagorol yn wir, Catherine!



Catherine efo'i medalau Gymnasteg

Ond nid mewn gymnasteg yn unig mae Catherine yn rhagori. Fel y gŵyr darllenwyr y Llais, mae hi'n cael llwyddiant arbennig yn y gamp o nofio hefyd. Ddechrau'r mis hwn roedd Catherine yn cymryd rhan mewn Gala nofio i Wynedd AA+B, a llwyddodd i ennill y fedal aur yn y ras Pili Pala dros 100 medr. Rhagorol eto, Catherine.

Yr ymwelwr aeth ar y blaen gyda'r gwynt ar eu cefnau ac agos iawn oedd y sgôr ar ôl hanner awr o chwarae. Fodd bynnag, Bethesda oedd ar y blaen o 21 pwynt i 13 ar yr egwyl.

Dim ond un tîm oedd ynddi yn yr ail hanner a Bethesda aeth â hi o 38 pwynt i 13 wedi sgorio 6 chais a sicrhau pwynt bonws i aros yn bumed yn y tabl cynghrair.

Dathlu'r 40
Yn dilyn y gêm yn erbyn Nant Conwy ar Ebrill 11eg bydd croeso i holl gyn-chwaraewyr a chefnogwyr y clwb ddod i ddathlu pen-blwydd y clwb yn 40 oed. Noson anffurfiol i ail-fyw hen atgofion ac i falu awyr yng nghwmni hen gyfeillion fydd hon. Croeso i bawb!